Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Pembrokeshire Coast National Park

# Cynllun Datblygu Lleol 3 – (2025-2039)

Cytundeb Cyflawni

Cymeradwywyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol: 10 Medi 2025

Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru: 3 Hydref 2025

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........................................................................ 4

**1. Cyflwyniad..................................................................................................7**

1.1 Cefndir.................. ..................................................................................7

1.2 Paratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 ......................................................8

1.3 Cyfleoedd ar gyfer cydweithio ......................................................... 16

1.4 Canllawiau Cynllunio Atodol ........................................................ 17

**2. Amserlen........................................... ......................................................19**

2.1 Camau Paratoi Allweddol................................................................. 19

2.2 Amserlen Paratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 .................................... 20

2.3 Dulliau Ymgynghori/Hysbysu ......................................................... 23

2.4 Adnoddau....................................................................................... 25

2.5 Risgiau i'r amserlen ......................................................................... 26

**3.Cynllun Cynnwys Cymunedau ....................................................................27**

3.1 Y tîm Polisi Strategol a'r strwythur gwneud penderfyniadau ............ 27

3.2 Pam cymryd rhan?........................................................................... 27

3.3 Egwyddorion ymgysylltu .................................................................. 28

3.4 Y Gymraeg....................................................................................... 28

3.5 Beth fyddwn ni ei angen gennych chi?............................................. 29

3.6 Pwy fydd yn cymryd rhan a sut? ...................................................... 29

3.7 Adborth............................................................................................ 35

3.8 Deisebau.......................................................................................... 35

3.9 Sylwadau hwyr................................................................................. 36

**4. Monitro ac Adolygu ..........................................................................................37**

4.1 Cytundeb Cyflawni ........................................................................... 37

4.2 Cynllun Datblygu Lleol ..................................................................... 37

**5. Y camau nesaf ..................................................................................................38**

6. Cysylltiadau Defnyddiol ........................................................................39
Atodiad 1 'Profion Cadernid'.....................................................................40
Atodiad 2: Camau manwl paratoi ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3 ..........42
Atodiad 3: Risgiau i'r amserlen ..................................................................66
Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori ..................................................................69
Atodiad 5 'Rhestr Termau' .........................................................................83

## Crynodeb Gweithredol

1. Mae Deddf Cynllunio 2004 a Deddf Prynu Gorfodol 2004 yn mynnu bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) bob 4 blynedd o'r adeg y cafodd ei fabwysiadu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod asesiad rheolaidd a chynhwysfawr yn cael ei gynnal ynghylch a yw'r cynllun yn parhau i fod yn gyfredol neu a oes angen newidiadau.

2. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fabwysiadu ym mis Medi 2020. Dechreuwyd adolygiad llawn ym mis Medi 2024. Mae canlyniadau'r adolygiad wedi'u cyhoeddi yn Adroddiad Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol 2 (Mawrth 2025). Daeth Adroddiad yr Adolygiad i'r casgliad bod angen diwygiad llawn i Gynllun Datblygu Lleol 2.

3. Y cam cyntaf wrth baratoi'r CDLl 3 newydd yw llunio Cytundeb Cyflawni. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) yn rhagnodi bod yn rhaid i'r Cytundeb Cyflawni gynnwys:

- amserlen o gyfnodau allweddol wrth baratoi'r Cynllun (Pennod 2), a'r
- Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS), sy'n nodi sut a phryd y bydd rhanddeiliaid a'r gymuned yn ymgysylltu ac yn cyfranogi yn y broses o lunio'r cynllun (Pennod 3).

4. Mae'r Cytundeb Cyflawni hwn hefyd yn rhoi manylion am yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y Cynllun, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac asesiadau effaith eraill a fydd yn cynnwys: Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Iechyd (Pennod 1).

5. Mae'n ddatganiad o ymrwymiad yr Awdurdod i baratoi CDLl 3 newydd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu[1] yn disgrifio'r Cytundeb Cyflawni fel "canllawiau hanfodol ar reoli prosiectau" (paragraff 3.15).

6. Bu'r Cytundeb Cyflawni drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o wyth wythnos rhwng 19 Mai a 14 Gorffennaf 2025. Mae adroddiad yr ymgynghoriad ynglŷn â pharatoi'r Cytundeb Cyflawni ar gael ar wefan yr Awdurdod.

[1] llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf

7. Cafodd y Cytundeb Cyflawni ei gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 10 Medi 2025. Cytunodd Llywodraeth Cymru â'r Cytundeb Cyflawni ar 3 Hydref 2025.

8. Mae'r amserlen ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3 yn cynnwys camau diffiniol a chamau dangosol. Camau dangosol yw'r rheini a restrir isod yn dilyn y Cam Adneuo. Bydd hyn yn cael ei drosi'n ddyddiadau pendant cyn cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol.

9. Nodir y camau allweddol yn y tabl isod:

| Camau diffiniol: | | |
|---|---|---|
| **Cam** | **Amserlen** | **Cyfnod ymgynghori** |
| **Adroddiad yr Adolygiad** | Mawrth 2025 | 10 Ionawr i 21 Chwefror 2025 |
| **Cytundeb Cyflawni** | Ebrill i Hydref 2025 | 19 Mai i 14 Mehefin 2025 |
| **Cyfranogiad Cyn-adneuo** | Tachwedd 2025 i Hydref 2026 | Galwad am safleoedd ymgeisiol: Ionawr 2026 – Mawrth/Ebrill 2026<br><br>Asesiad Cynaliadwyedd (SA) sy'n cynnwys Adroddiad Cwmpasu Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) Ionawr 2026 i Chwefror 2026 |
| **Strategaeth a Ffefrir** | Tachwedd 2026 i Fehefin 2027 | Ionawr i Fawrth 2027 |
| **Adneuo** | Mehefin 2027 i Fedi 2028 | Mawrth i Fai 2028 |
| **Camau dangosol:** | | |
| **Cyflwyno i Lywodraeth Cymru** | Hydref 2028 | Ddim yn berthnasol |
| **Archwiliad** | Hydref 2028 i Fedi 2029.<br>Rhagwelir Sesiynau Gwrandawiad Chwefror / Mawrth 2029 | |
| **Mabwysiadu** | Tachwedd 2029 | Ddim yn berthnasol |

10. Mae'r Awdurdod wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru drwy amcangyfrif amserlen o tua pedair blynedd ar gyfer paratoi'r CDLl newydd.

11. Nod cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 yw cael consensws ar y ffordd orau ymlaen i ddyfodol y Parc Cenedlaethol.

12. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn nodi'r egwyddorion, y dulliau ymgysylltu a'r cynigion ar gyfer adborth.

13. Mae cynigion ar gyfer monitro cynnydd y Cynllun Newydd a'r Cytundeb Cyflawni hefyd wedi'u nodi.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardal i nodi'r strategaeth a'r fframwaith polisi ar gyfer datblygu a defnyddio tir.

1.1.2 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl 2) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fabwysiadu ar 30 Medi 2020. Mae cynllun datblygu cyfredol yn rhan hanfodol o'r system sy'n dilyn y cynllun yng Nghymru. Yn unol â gofynion deddfwriaethol[2], mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol 2 mabwysiedig heb fod yn hwy na phedair blynedd ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Mae hyn er mwyn sicrhau bod asesiad rheolaidd a chynhwysfawr yn cael ei gynnal ynghylch a yw'r cynllun yn parhau i fod yn gyfredol neu a oes angen newidiadau.

1.1.3 Yn unol â'r gofyniad hwn, dechreuodd yr Awdurdod gynnal adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol 2 a fabwysiadwyd ym mis Medi 2024. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad yn Adroddiad yr Adolygiad a oedd ar gael ar gyfer ymgynghori arno rhwng 10 Ionawr a 21 Chwefror 2025 ac a gymeradwywyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 26 Mawrth 2025. Cyflwynwyd Adroddiad yr Adolygiad i Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2025.

1.1.4 Mae Adroddiad yr Adolygiad (Mawrth 2025) yn ystyried y cyd-destun, y ddeddfwriaeth a'r newidiadau polisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 ac mae'n archwilio perfformiad y cynllun o ran pa mor dda mae'r polisïau wedi cyflawni gweledigaeth, nodau a strategaeth y cynllun. Daeth Adroddiad yr Adolygiad i'r casgliad bod angen diwygiad llawn i'r cynllun. Y cam cyntaf wrth baratoi'r CDLl 3 newydd yw llunio Cytundeb Cyflawni. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol 2 sydd wedi'i fabwysiadu yn parhau i fod yn gynllun byw tan y caiff ei ddisodli gan Gynllun Datblygu Lleol 3 a fabwysiedir.

### Beth yw'r Cytundeb Cyflawni?

1.1.5 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn ofyniad statudol, sy'n nodi dechrau ffurfiol y broses o adolygu'r cynllun. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) yn rhagnodi bod yn rhaid i'r Cytundeb Cyflawni gynnwys:

[2]Rheoliadau Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 69(1) a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2015), Rheoliad 41 (1)

- **amserlen** o gyfnodau allweddol wrth baratoi'r Cynllun (Pennod 2), a'r
- **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS)**, sy'n nodi sut a phryd y bydd rhanddeiliaid a'r gymuned yn ymgysylltu ac yn cyfranogi yn y broses o lunio'r cynllun (Pennod 3).

1.1.6 Mae'r Cytundeb Cyflawni yn arf rheoli prosiect hanfodol i arwain y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 ac mae'n ddatganiad o ymrwymiad gan yr Awdurdod i baratoi'r cynllun.

1.1.7 Bydd Cynllun Datblygu Lleol 3 yn cael ei werthuso o ran cynaliadwyedd a pha mor debygol ydyw o effeithio ar yr amgylchedd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei nodi yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Mae'n ofynnol i'r Awdurdod hefyd baratoi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ac asesiadau effaith eraill sy'n cynnwys Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Iechyd (Pennod 1). Bydd cyfleoedd i roi sylwadau ar y prosesau a'r dogfennau hyn hefyd yn cael eu darparu.

1.1.8 Paratowyd y Cytundeb Cyflawni yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2015) a chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (argraffiad 3, 2020).

## 1.2 Paratoi Cynllun Datblygu Lleol 3

1.2.1 Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn cael ei harwain gan gynllun datblygu, sy'n golygu y bydd yr holl benderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.[3] Mae'r cynllun datblygu yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch pa fath o ddatblygiad a fydd yn cael ei ganiatáu ac na fydd yn cael ei ganiatáu mewn rhai lleoliadau ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau rhesymegol a chyson. Mae'r system cynllun datblygu yng Nghymru yn cynnwys tair haen gyda chynlluniau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol:

- Cynllun Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040[4]
- Cynllun Rhanbarthol: Mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru baratoi Cynllun Datblygu Strategol (SDP). Nid yw'r gwaith wedi dechrau'n ffurfiol

[3]Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Adran 38(6)

[4]Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol | LLYW.CYMRU

eto ar y Cynllun Datblygu Strategol a bydd yn cymryd o leiaf bedair blynedd i'w baratoi. Mae'n ofynnol i'r SDP gydymffurfio'n gyffredinol â Chymru'r Dyfodol.

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei baratoi gan Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae'n ofynnol iddo gydymffurfio'n gyffredinol â Chymru'r Dyfodol, ac ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, â'r SDP.

1.2.2 Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth gyffredinol â hierarchaeth y cynlluniau datblygu, bydd yr Awdurdod yn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisi cenedlaethol a chanllawiau ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol:

### Deddfwriaeth:

- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd yn 2015) – ('Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol')[5]

### Polisi cenedlaethol:

- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) 2024
- Nodiadau Cyngor Technegol, cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi

### Canllawiau:

- Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) 2020
- Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol – Canllawiau Gweithdrefnau 2022 (Yr Arolygiaeth Gynllunio)
- Cynlluniau Datblygu Lleol, Paratoi i'w Cyflwyno – Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol (2015) Yr Arolygiaeth Gynllunio

1.2.3 Mae Cymorth Cynllunio Cymru a Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau cymunedol hawdd eu darllen sy'n egluro system y cynllun datblygu yng Nghymru. Mae'n egluro sut mae cynlluniau'n cael eu paratoi a sut mae cymryd rhan yn y broses. Community-Development-Plans-Guide-English.pdf

## Dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol

1.2.4 Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddau ddiben statudol, a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995:

[5] *Fel y'i diwygiwyd, gan gynnwys gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015 ('Rheoliadau Diwygio 2015')*

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol

Mae gan y Parc Cenedlaethol hefyd ddyletswydd statudol i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol wrth gyflawni'r dibenion hyn. Rôl ganolog yr Awdurdod Parc Cenedlaethol hwn yw cymryd y camau sydd eu hangen i roi dibenion Parciau Cenedlaethol ar waith.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

1.2.5 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru eu cyflawni:

**Ffigur 1:** Diagram yn dangos y saith nod llesiant yng Nghymru: Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (wedi'i gymryd o Bolisi Cynllunio Cymru).



1.2.6 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn nodi pum ffordd o weithio i gyrff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn gydnaws â'r pum ffordd o weithio fel a ganlyn:

**Hirdymor**: Mae'r Cytundeb Cyflawni yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer paratoi CDLl3, sy'n cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2025 a 2039. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i gynllunio ar gyfer dyfodol hirdymor i'r Parc Cenedlaethol.

**Integreiddio**: Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r gofynion cyfreithiol a chynlluniau a pholisïau eraill y mae'n ofynnol i'r CDLl fod yn gydnaws ac integreiddio â hwy. Mae hynny'n cynnwys Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro. Bydd cadernid y CDLl yn cael ei asesu gan Arolygydd annibynnol. ac un o'r meini prawf allweddol fydd ei fod yn gyson ac yn gydnaws â chynlluniau perthnasol eraill.

**Cynnwys**: Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn rhoi manylion ynglŷn â'r modd yr eir ati'n weithredol i ymgysylltu â rhanddeiliaid, y cyhoedd a grwpiau diddordeb allweddol drwy gydol y broses o ffurfio'r cynllun. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn hyrwyddo cyfranogiad cynhwysol, gan gynnig nifer o gyfleoedd i gymunedau rannu eu safbwyntiau a helpu i ffurfio'r CDLl. Bydd yr ymgysylltu'n cael ei hwyluso drwy amryw o ddulliau gwahanol, gan gynnwys llwyfannau ar-lein a digwyddiadau galw-i-mewn wyneb-yn-wyneb (gweler Atodiad 2). Mae Atodiad 4 yn rhestru rhychwant eang o grwpiau rhanddeiliaid a diddordebau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o bob rhan o gymdeithas.

**Cydweithio**: Bydd elfennau o gydweithio yn anelu at sicrhau y bydd sylfeini tystiolaeth a rennir, effeithlonrwydd a chysondeb wedi'u hymgorffori drwy gydol y broses o greu'r cynllun drwy:

- Weithio ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff statudol eraill
- Gweithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau cyfagos a ledled rhanbarth de Orllewin Cymru
- Partneriaethau gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro, darparwyr seilwaith, ac eraill.

**Atal**: Mae'r Cytundeb Cyflawni yn darparu cynllunio rhagweithiol, amserlennu a rheoli risgiau (gweler Atodiad 3) er mwyn atal oedi wrth greu'r cynllun.

1.2.7 Un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ydy y dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus baratoi Cynllun Llesiant i nodi sut i wella lles pobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Bydd paratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 yn ystyried y Cynllun Llesiant diweddaraf ar gyfer Sir Benfro (2023).

1.2.8 Mae datblygu cynaliadwy wrth galon y broses o lunio'r cynllun datblygu. Bydd CDLl 3 yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA), a fydd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA), sydd ill dau yn ofynion statudol.[6]

Mae'r **Arfarniad o Gynaliadwyedd** yn asesu goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd strategaethau a pholisïau'r cynlluniau sy'n dod i'r amlwg.[7]

Mae **Asesiad Amgylcheddol Strategol** yn gofyn am asesiad trwyadl o effeithiau amgylcheddol ac, i raddau llai, effeithiau cymdeithasol y cynlluniau. Bwriad hyn yw sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth gynhyrchu'r cynllun.[8]

1.2.9 Bydd yr Asesiad o Gynaliadwyedd, sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn cael ei gynnal ar gyfer CDLl 3 fel a ganlyn:

Bydd **Adroddiad Cwmpasu** yn disgrifio'r cyd-destun llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol presennol ac yn casglu data sylfaenol i nodi a chanolbwyntio ar y materion arwyddocaol yn y Parc Cenedlaethol. Bydd hefyd yn adolygu'r cynlluniau, y polisïau, y rhaglenni a'r strategaethau perthnasol ar lefelau Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan nodi eu goblygiadau i CDLl 3. Bydd hyn yn llunio set o amcanion cynaliadwyedd a fydd yn ffurfio'r fframwaith i asesu effeithiau polisïau a chynigion y cynllun. Bydd y dangosyddion SA a ddefnyddir ar gyfer CDLl 2 yn cael eu diwygio a'u diweddaru yn ôl yr angen a bydd Fframwaith Cynaliadwyedd diwygiedig yn cael ei baratoi. Ymgynghorir ar yr Adroddiad Cwmpasu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw am gyfnod o bum wythnos o leiaf fel rhan o'r cam cyfranogi cyn adneuo a nodir yn yr amserlen a bydd ar gael ar y wefan yn ystod y cam ymgynghori.

Bydd **Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol** yn cael ei baratoi i asesu opsiynau'r cynllun, y strategaeth ofodol a'r polisïau yn erbyn y fframwaith cynaliadwyedd fel y'i sefydlwyd yn yr adroddiad cwmpasu. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn egluro sut y gellir osgoi neu

[6]Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd).

[7]Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004

[8]Fel sy'n ofynnol dan Offeryn Statudol 2004 Rhif 1656 (W.170), Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20041656e.htm);a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Adran 62(6) a Chyfarwyddeb Ewropeaidd EU2001/42/EC (http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/40005--g.htm#62)

wrthbwyso effeithiau niweidiol CDLl 3, a sut y gellir manteisio i'r eithaf ar yr effeithiau buddiol. Bydd hwn ar gael i ymgynghori arno ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar y strategaeth sy'n cael ei ffafrio a bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer ymgynghoriad ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo.

Bydd yr **Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd terfynol** yn dod â'r adroddiad arfarniad o gynaliadwyedd cychwynnol at ei gilydd ac yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y Cynllun Adneuo. Caiff ei diweddaru ymhellach er mwyn ystyried yr argymhellion a wnaed gan yr Arolygydd Cynllunio. Fe'i cyhoeddir ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd.

Cyhoeddir **datganiad ôl-fabwysiadu** ar ôl mabwysiadu CDLl 3 sy'n esbonio sut y rhoddwyd ystyriaeth i ystyriaethau cynaladwyedd a'r asesiadau wrth gynhyrchu CDLl 3.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

1.2.10 Mae adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i arfarniad o gynaliadwyedd gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae adran 61 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu'r materion y gellid disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu ar gynllunio ei datblygiad, gan gynnwys i ba raddau y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn yr ardal. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' [9] yn rhoi cyngor manwl ar sut y dylid defnyddio'r arfarniad o gynaliadwyedd i asesu effaith bosibl y strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau yn y CDLl ar y Gymraeg. Lle bo tystiolaeth yn dangos effaith niweidiol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg, gall yr ACLl asesu a ddylid diwygio'r strategaeth, neu nodi mesurau lliniaru.

1.2.11 Ochr yn ochr ag asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 drwy ystyried holl effeithiau'r CDLl ar y Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Bydd datganiad yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo ar sut mae'r Gymraeg wedi cael ei hystyried a'i thrin o fewn y cynllun datblygu.

[9] Nodyn cyngor technegol (NCT) 20: cynllunio a'r Gymraeg | LLYW.CYMRU

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1.2.12 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod sgrinio'r naw grŵp â nodweddion gwarchodedig [10] yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i nodi a chyfiawnhau pa nodweddion y gall y cynllun ddylanwadu arnynt. Bydd y nodweddion hynny y gellir dylanwadu arnynt yn cael eu hintegreiddio i'r fframwaith asesu; bydd y rhai na ellir dylanwadu arnynt yn cael eu sgrinio allan gyda chyfiawnhad. Rhaid cynnal asesiad i asesu effaith polisïau a chynigion y cynllun ar grwpiau poblogaethau gwahanol i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal.

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

1.2.13 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ynghylch iechyd a lles corfforol a meddyliol yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) gael ei gynnal gan gyrff cyhoeddus. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau arfaethedig ar Asesu'r Effaith ar Iechyd ym mis Rhagfyr 2023 a disgwylir y rheoliadau terfynol. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn diffinio HIA fel "...asesiad o effaith debygol cam gweithredu neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru neu rai o bobl Cymru yn y tymor byr ac yn y tymor hir."

1.2.14 Bydd yr Awdurdod yn ystyried defnyddio'r fethodoleg a nodir yn y canllawiau a gynhyrchwyd gan Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru[11] ac yn cynnal gweithdy HIA cyflym a chyfranogol i hysbysu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo gyda rhanddeiliaid allweddol:

- **a)** Nodi grwpiau penodol o'r boblogaeth y gallai'r polisïau yn y Cynllun Adneuo effeithio'n wahaniaethol arnynt
- **b)** Ystyried y polisïau cynllunio drafft mewn perthynas ag effeithiau iechyd posibl, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a allai gael effaith ar iechyd a lles pobl leol, ac yn enwedig y grwpiau agored i niwed a nodwyd
- **c)** Nodi a oes unrhyw ffyrdd posibl o leihau unrhyw effeithiau negyddol a chynyddu'r effeithiau cadarnhaol i'r eithaf

1.2.15 Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a bydd y newidiadau a argymhellir yn cael eu gwneud i'r cynllun i leihau'r risgiau i iechyd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl.

[10] Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol

[11] HIA-a-CDLl-Pecyn-Cymorth-terfynol.pdf

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.2.16 Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000, sydd bellach yn cael ei alw'n safle Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol ar ôl Brexit.[12] Mae'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA). Dylai'r asesiad hwn nodi'r effeithiau tebygol ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, penderfynu a oes modd cyfiawnhau'r effeithiau hyn mewn cyd-destun ehangach, a nodi unrhyw fesurau lliniaru y mae'n rhaid eu cymryd.

1.2.17 Bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn cyfres o gamau, yn ôl yr angen:

**Cam 1: Sgrinio** am effaith sylweddol debygol er mwyn penderfynu a yw CDLl 3 yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar nodweddion cymwys ac amcanion cadwraeth y safle gwarchodedig. Os na ellir diystyru effaith sylweddol, rhaid i'r HRA barhau i gam 2.

**Cam 2: Asesiad Priodol** i asesu effeithiau sylweddol tebygol y cynnig ar uniondeb y safle naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Os bydd effeithiau niweidiol posibl yn cael eu nodi, bydd angen i'r Asesiad Priodol ystyried mesurau lliniaru.

**Cam 3: Asesiad o Opsiynau Eraill a Cham 4 Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI)** i ystyried a fyddai modd addasu cynigion a fyddai'n cael effaith niweidiol ar safle fel y'u haseswyd yng ngham 2 neu ai dyna'r unig opsiwn. Os nad oes dewis arall addas i'w gael, byddai Cam 4 yn asesu a fyddai'r cynnig yn gymwys ar gyfer esemptiad yn unol ag IROPI.

1.2.18 Bydd yr HRA yn cael ei baratoi ochr yn ochr â pharatoi Cynllun Datblygu Lleol 3 a bydd yn cael ei gyhoeddi er mwyn cael sylwadau arno yn ystod y camau ymgynghori ar y strategaeth a ffefrir a'r Cynllun Adneuo.

## Y Weithdrefn Adolygu a'r Profion Cadernid

1.2.19 Mae Adroddiad Adolygu CDLl 2 (Mawrth 2025) yn crynhoi'r prif feysydd pwnc lle nad ystyrir bod y Cynllun Datblygu Lleol 2 presennol yn perfformio, lle mae wedi dyddio oherwydd newidiadau cyd-destunol a pha rannau o'r cynllun felly y mae angen eu diwygio. Ar sail arwyddocâd y newidiadau sydd eu hangen, bydd yr Awdurdod yn llunio cynllun newydd llawn.

[12]Cyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)

1.2.20 Rhaid i Gynllun Datblygu Lleol 3 fodloni'r 3 prawf cadernid a amlinellir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Rhifyn 3, 2020:

- A yw'r Cynllun yn addas? (h.y. a yw'n glir bod y Cynllun yn gyson â Chynlluniau eraill?)
- A yw'r Cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r Cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
- A fydd y Cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion am y Profion Cadernid a sut cânt eu cymhwyso yn yr Archwiliad.

## 1.3 Cyfleoedd ar gyfer cydweithio

1.3.1 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn datgan y dylai awdurdodau archwilio ac egluro'r cyfleoedd i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd gydag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos a chynyddu'r gwaith trawsffiniol. Mae hyn wedi cael ei ystyried yn Adroddiad yr Adolygiad (pennod 5) ac mae'n nodi nad oes cyfle ar hyn o bryd i baratoi CDLl ar y cyd gan fod awdurdodau ar wahanol gamau o ran paratoi CDLl fel yr amlinellir isod:

- Ymgynghorodd Cyngor Sir Penfro ar Gynllun Datblygu Lleol Ail-Adneuo 2 ym mis Hydref i fis Rhagfyr 2024, gyda mabwysiadu'r cynllun wedi'i amserlennu ar gyfer mis Mai 2026.
- Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol 2 newydd ac mae wrthi'n cael ei archwilio. Rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu yn ystod haf/hydref 2025.
- Yn y Cyngor llawn ym mis Hydref 2021, cytunodd Cyngor Sir Ceredigion ar oedi dros dro am gyfnod sy'n amhenodol ar hyn o bryd ar gyfer y CDLl newydd er mwyn casglu tystiolaeth ac opsiynau lliniaru ynghylch lefelau ffosffad yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi.

1.3.2 Ceir cyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau cynllunio lleol eraill. Mae'r Parc Cenedlaethol yn aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru sydd â dyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ar gyfer y rhanbarth. Bydd y CDS yn ymdrin â materion cynllunio defnydd tir strategol ar raddfa ranbarthol ac unwaith y bydd CDS wedi'i fabwysiadu, byddai'n sail i faint a lleoliad y twf ar gyfer CDLlau / CDLlau Cryno. Ar hyn o bryd, nid oes Cytundeb Cyflawni nac amserlen ar gyfer paratoi CDS, fodd bynnag, bydd y broses o adolygu'r CDLl yn seiliedig ar weithio ar y cyd ar draws y rhanbarth ar faterion cynllunio strategol.

1.3.3 Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Penfro (CSP) fel y prif awdurdod ar gyfer tai, trafnidiaeth, addysg a gwastraff yn Sir Benfro. Bydd y Parc Cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Sir i baratoi'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, a gydag Awdurdodau yn is-ranbarth Gorllewin Cymru i sicrhau cyflenwadau digonol o fwynau yn y dyfodol. Bydd y Parc Cenedlaethol yn ceisio cydweithio i gomisiynu astudiaethau tystiolaeth ar y cyd ag awdurdodau cyfagos ac awdurdodau ar sail ranbarthol i sicrhau dull gweithredu cyson ac i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol.

## 1.4 Canllawiau Cynllunio Atodol

1.4.1 Bydd CDLl 3 yn cynnwys ystod o bolisïau i arwain datblygiad a'r defnydd o dir yn y Parc Cenedlaethol ac ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol bydd yn darparu'r cynllun datblygu ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Gellir cynhyrchu nodiadau cyfarwyddyd, briffiau a chanllawiau cynllunio ategol eraill i roi manylion am bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, bydd y dogfennau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a bydd angen i Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu cymeradwyo'n ffurfiol. Ar ôl ei fabwysiadu, gall CCA fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd angen i unrhyw CCA fod yn gyson â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a chroesgyfeirio'r polisïau a'r cynigion y mae'n eu hategu. Er enghraifft, gall hyn fod ynghylch safleoedd neu feysydd pwnc penodol fel tai fforddiadwy.

1.4.2 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu nifer o ddogfennau canllawiau cynllunio atodol sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau i ychwanegu manylion at bolisïau yn y CDLl 2 a fabwysiadwyd. Bydd y CCA yn cael ei adolygu fel rhan o broses baratoi CDLl 3. Bydd meysydd tebygol lle bydd canllawiau'n cael eu cynhyrchu neu eu datblygu o'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn cael eu nodi yn y cam Strategaeth a Ffefrir ac Adneuo.

1.4.3 Ymgynghorir ar y canllawiau gyda grwpiau targed sy'n berthnasol i'r mater dan sylw a byddant yn cynnwys cynghorau cymuned perthnasol. Mae nifer o gamau i'w cymryd wrth baratoi canllawiau:

- Rhoddir hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgyngoreion statudol priodol, grwpiau wedi'u targedu a phartïon hysbys sydd â diddordeb.
- Bydd copïau papur o'r ddogfen ar gael i'w harchwilio yn Swyddfeydd yr Awdurdod yn Noc Penfro, yn ystod oriau swyddfa.
- Bydd copïau ar gael i'w gweld neu i'w llwytho i lawr oddi ar wefan yr Awdurdod.

- Efallai y bydd datganiad i’r wasg yn cael ei baratoi a fydd yn rhoi gwybod bod y canllawiau drafft wedi’u cyhoeddi
- Bydd yr ymgynghoriad yn para chwe wythnos.
- Mae’r holl sylwadau yn wybodaeth gyhoeddus.
- Cyhoeddir adroddiad o’r ymgynghoriad yn dangos sut yr ymdriniwyd â’r ymatebion gan swyddogion.

# 2. Amserlen

## 2.1 Camau Paratoi Allweddol

2.1.1 Mae amserlen y Cynllun Datblygu Lleol yn gwahaniaethu rhwng:

> **Camau diffiniadol**, hyd at a chan gynnwys y cam adneuo statudol, sydd o dan reolaeth uniongyrchol yr Awdurdod ac sydd, felly, â dyddiadau targed realistig; a

> **Chamau dangosol**, y tu hwnt i'r cam adneuo statudol, sy'n dibynnu ar ffactorau allanol, (e.e. nifer o sylwadau a dderbyniwyd, capasiti'r Arolygydd Cynllunio annibynnol, ac ati) y mae gan yr Awdurdod lai o reolaeth drostynt. Bydd y dyddiadau hyn yn cael eu hailystyried ar ôl cyrraedd y cam adneuo a'u troi'n amserlen derfynol ar gyfer y camau sy'n weddill. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'w gytuno â Llywodraeth Cymru. Pan gytunir arno, rhaid ei gyhoeddi.

2.1.2 Byddai'r Cynllun yn cael ei baratoi mewn tua 4 blynedd. Mae dechrau'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 wedi'i amserlennu i ddechrau ym mis Tachwedd 2025 a disgwylir y bydd Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu ym mis Tachwedd 2029. Cynigir bod lefel goddefiant o dri mis yn cael ei chynnwys yn yr amserlen a gynigir er mwyn caniatáu ar gyfer llithriant heb ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol.

## 2.2 Amserlen Paratoi Cynllun Datblygu Lleol 3

2.2.1 Mae'r tabl isod yn nodi camau paratoi'r cynllun, tasgau allweddol, amserlen paratoi a dyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus. Ceir amserlen fanylach yn manylu ar y camau, pwy fydd yn cymryd rhan a dulliau ymgysylltu yn Atodiad 2.

| Cam | Tasgau allweddol | Amserlen paratoi | Dyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus |
|---|---|---|---|
| **Y Cytundeb Cyflawni**<br>**(Rheoliad 9 a 10 CDLl)** | Paratoi Cytundeb Cyflawni | Ebrill i Hydref 2025 | Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft: ymgynghoriad wyth wythnos 19 Mai i 14 Gorffennaf 2025 |
| **Cyfranogiad Cyn-adneuo**<br>**(Rheoliad 14 CDLl)** | Coladu sylfaen dystiolaeth<br><br>Galw am safleoedd arfaethedig<br><br>Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu SA/SEA | Tachwedd 2025 - Hydref 2026 | Galwad am safleoedd ymgeisiol: Ionawr 2026 – Mawrth/Ebrill 2026<br><br>Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu SA/SEA ynghyd â Phapur Materion Ionawr 2026 i Chwefror 2026 (hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw ac ar gael i'r cyhoedd roi sylwadau arno) |

| Cam | Tasgau allweddol | Amserlen paratoi | Dyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus |
|---|---|---|---|
| **Strategaeth a Ffefrir (Rheoliadau CDLl 15, 16 a 16a[13])** | Paratoi dogfennau'r Strategaeth a Ffefrir ac Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ar gyfer ymgynghori arnynt | Tachwedd 2026 - Mehefin 2027 | Ionawr 2027 i Fawrth 2027 (amserlen statudol yw o leiaf 6 wythnos) |
| **Adneuo (Rheoliadau CDLl 17, 18 a 19)** | Paratoi ac ymgynghori ar y Cynllun Adneuo a'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd | Gorffennaf 2027 - Medi 2028 | Mawrth i Fai 2028 (mae'r amserlen statudol yn 6 wythnos o leiaf) |
| **Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio (Rheoliad 22)** | Cyflwyno dogfennau | Hydref 2028 | Ddim yn berthnasol |
| **Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23)** | Profi cadernid y Cynllun | Hydref 2028 i Fedi 2029.<br>Rhagwelir Sesiynau Gwrandawiad Chwefror / Mawrth 2029 | |
| **Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd**<br>**(Rheoliad 24)** | Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | Erbyn Medi 2029 | Ddim yn berthnasol |
| **Mabwysiadu**<br>**(Rheoliad 25)** | Mabwysiadu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Tachwedd 2029 | Ddim yn berthnasol |

[13]Mae rheoliad 16A wedi'i ychwanegu o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015

| Cam | Tasgau allweddol | Amserlen paratoi | Dyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus |
|---|---|---|---|
| **Datganiad ar ôl Mabwysiadu** | Cyhoeddi Datganiad Mabwysiadu | Cyn gynted ag y bo modd ar ôl mabwysiadu. | Ddim yn berthnasol |
| **Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37)** | Monitro a pharatoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) | Yn flynyddol rhwng mis Ebrill a mis Medi a chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Hydref | Ddim yn berthnasol |

## 2.3 Dulliau Ymgynghori/Hysbysu

2.3.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r dulliau ymgynghori a hysbysu ar gyfer camau allweddol paratoi'r cynllun.

| Cam Ymgynghori/Hysbysu | Dull |
|---|---|
| Cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni | - Gwefan<br>- Copi papur ar gael i'w weld ym Mharc Llanion, Doc Penfro.<br>- Hysbysiad ysgrifenedig drwy e-bost/llythyr i'r holl ymgyngoreion (gan gynnwys Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned a Chynghorwyr, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgyngoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol) |
| Gwahodd Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol | - Gwefan<br>- Hysbysiad ysgrifenedig drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[14]<br>- Datganiad i'r wasg<br>- Cyfryngau cymdeithasol |

[14](gan gynnwys Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

| Cam Ymgynghori/Hysbysu | Dull |
|---|---|
| Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd | - Gwefan<br>- Hysbysiad ysgrifenedig drwy e-bost i Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir<br><br>Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo<br><br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio<br><br>Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd<br><br>Mabwysiadu | - Gwefan<br>- Bydd copïau papur o'r Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adnau a'r Map o Gynigion ar gael i'w gweld yn ystod y cyfnod ymgynghori perthnasol ym Mharc Llanion, Doc Penfro, Oriel y Parc, Tyddewi ac yn llyfrgelloedd Trefdraeth, Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Ar gais yn unig y bydd copïau papur o ddogfennau'r sylfaen tystiolaeth ategol, papurau cefndir ac asesiadau effaith gan gynnwys y Gwerthusiad Cynaliadwyedd, cofrestr o'r safleoedd ymgeisiol ac adroddiad ar ymgynghoriadau ar gael yn y lleoliadau hyn.<br>- Hysbysiad ysgrifenedig drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[15]<br>- Datganiad i'r wasg ar gamau'r Strategaeth a Ffefrir ac Adneuo ar gyfer Ymgynghori<br>- Cyfryngau cymdeithasol fel y bo'n briodol |

[15] (gan gynnwys Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

| Cam Ymgynghori/Hysbysu | Dull |
|---|---|
| | - Mae mynediad i'r we ar gael yn Swyddfeydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a llyfrgelloedd cyhoeddus[16] |

## 2.4 Adnoddau

### Staff

2.4.1 Mae'r cyfrifoldeb dros baratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 yn nwylo'r tîm Polisi Strategol sy'n cynnwys:

- Rheolwr Polisi Strategol
- Prif Swyddog Cynllunio
- Uwch Swyddog Cynllunio / Swyddog Cynllunio
- Swyddog Arfarnu Ymchwil a Chynaliadwyedd
- Swyddog Cymorth Technegol Cynllunio

2.4.2 Mae'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Ymgysylltu yn gynllunydd cymwysedig a fydd yn darparu arweiniad a chyfeiriad strategol.

2.4.3 Bydd swyddogion yn gweithio gyda swyddogion o Gyngor Sir Benfro fel y prif awdurdod ar gyfer trafnidiaeth, tai, addysg a gwastraff. Bydd cydweithio rhanbarthol yn parhau gydag awdurdodau cyfagos a'r rhai yn ne orllewin Cymru ar sylfaen dystiolaeth ar y cyd. Lle bo angen, bydd ymgynghorwyr allanol yn cael eu comisiynu i gynnal astudiaethau ac asesiadau technegol penodol. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod digon o gyllideb ar gael i ddatblygu CDLl 3 i'w fabwysiadu o fewn yr amserlen benodedig. Disgwylir i hyn gynnwys gwariant sy'n ymwneud â phob elfen o baratoi CDLl 3 a'r Archwiliad Annibynnol.

### Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol

2.4.4 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol (18 aelod) yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau allweddol ym mhob cam o broses paratoi'r Cynllun. Awdurdod y Parc Cenedlaethol fydd yn gwneud yr holl benderfyniadau statudol sy'n ofynnol. Os bydd angen, bydd cyfarfodydd eithriadol yn cael eu cynnal i sicrhau y glynir at yr amserlen. Bydd swyddogion yn sefydlu cyfres o weithdai i Aelodau sy'n cynnwys holl Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae'r

[16]Mae prif swyddfa Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Noc Penfro. Mae'r llyfrgelloedd cyhoeddus yn cynnwys Aberteifi, Crymych, Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Arberth, Trefdraeth, Neyland, Penfro, Doc Penfro, Saundersfoot, Sanclêr, Tyddewi, Dinbych-y-pysgod.

gweithdai'n rhoi cyfle i drafod priodoldeb y dull gweithredu wrth ddatblygu'r Cytundeb Cyflawni, y Cynllun Datblygu Lleol a'r amrywiol arfarniadau.

## 2.5 Risgiau i'r amserlen

2.5.1 Er gwaethaf ceisio cynllunio ar gyfer pob posibilrwydd, mae rhwystrau'n codi. Mae materion a allai achosi anawsterau o ran cadw at yr amserlen a gynigir, neu weithredu'r rhaglen ymgysylltu arfaethedig, i'w gweld yn Atodiad 3. Mae'r mesurau lliniaru posibl wedi'u nodi yn y golofn olaf. Mae'r Canllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn datgan y gellir cynnwys lefel goddefiant o dri mis yn yr amserlen a gynigir, er mwyn caniatáu ar gyfer llithriant heb ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni yn ffurfiol.

# 3. Cynllun Cynnwys Cymunedau

## 3.1 Y tîm Polisi Strategol a'r strwythur gwneud penderfyniadau

3.1.1 Mae'n ofynnol i swyddogion yn yr Awdurdod wneud y canlynol:

- Sicrhau bod CDLl 3 yn cael ei baratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r arferion gorau.
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- Paratoi a chynnal sylfaen dystiolaeth gyfredol ar gyfer CDLl 3 a nodi newidiadau cyd-destunol allweddol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2.
- Ymgysylltu'n weithredol â nifer o wahanol grwpiau a chyrff fel y disgrifir isod drwy gydol proses y cynllun.
- Cyfuno canlyniadau'r ymgysylltu, ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth a gwneud argymhellion polisi ar gyfer CDLl 3 drwy gydol y gwahanol gamau i gyd-fynd â'r Profion Cadernid (Gweler Atodiad 1).
- Adrodd ar ganfyddiadau ac argymhellion i Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w cymeradwyo ar bob cam allweddol a chymryd camau gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd.
- Cynnal gweithdai fel sy'n briodol i friffio Aelodau ac ymgyngoreion ar gamau allweddol, trafod canfyddiadau ac argymhellion polisi.

3.1.2 Mae'n ofynnol i Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol:

- Gweithredu er budd pennaf y Parc Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd.
- Rhoi arweiniad i Swyddogion ar gyfeiriad polisi wrth baratoi dogfennau adolygu allweddol ac opsiynau polisi.
- Ystyried argymhellion Swyddogion ar gamau allweddol y broses ddiwygio a gwneud penderfyniadau ar ran yr Awdurdod.

3.1.3 Bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gamau allweddol gan gynnwys Adroddiad yr Adolygiad, Cytundeb Cyflawni, y Strategaeth a Ffefrir, cynigion Adneuo a mabwysiadu terfynol.

## 3.2 Pam cymryd rhan?

3.2.1 Mae unrhyw sefydliad sy'n cael effaith ar bobl, sefydliadau partner a chymunedau yn gwybod bod eu cefnogaeth weithredol a pharod yn gwneud byd o wahaniaeth. Mae'n bwysig ein bod yn deall beth sy'n bwysig i'r gymuned a pha fath o le rydyn ni, gyda'n gilydd, yn meddwl y dylai'r Parc Cenedlaethol fod. O nodi materion i helpu i sicrhau bod prosiect neu gynllun yn cael ei roi ar waith, mae cyfranogiad cymunedol effeithiol yn chwarae rhan allweddol yn y broses.

3.2.2 Mae cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol 3 yn rhoi cyfle i'r Awdurdod fireinio ei broses ymgysylltu, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith blaenorol o gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau bod cyfranogiad cymunedol mor effeithiol â phosibl o'r adnoddau sydd ar gael.

## 3.3 Egwyddorion ymgysylltu

3.3.1 Mae'r egwyddorion canlynol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid yn hanfodol i gyflawni Cynllun Datblygu Lleol 3 yn llwyddiannus:

- Byddwn yn ceisio gwneud y broses, y strategaeth a'r cynigion polisi a'r broses o wneud penderfyniadau mor hygyrch a hawdd eu deall â phosibl.
- Byddwn yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth a'r rhwydweithiau presennol er mwyn osgoi dyblygu a blinder ymgynghori.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn ymgynghori â phob rhan o'r gymuned, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod adborth yn cael ei adrodd, a'i fod yn rhan annatod o'n prosesau gwneud penderfyniadau.
- Byddwn yn anelu at greu consensws tra'n parhau'n realistig, gan gydnabod bod consensws yn fwy tebygol wrth ddatblygu opsiynau yn hytrach nag wrth ysgrifennu polisïau manwl y Cynllun; wrth geisio cytuno ar beth yw'r prif faterion yn hytrach na sut i ymateb; ac wrth gytuno ar yr hyn sydd angen ei ddatblygu yn hytrach na ble y mae'n cael ei ddatblygu.
- Byddwn yn ceisio amlinellu'n glir lle mae cyfleoedd ar gyfer disgresiwn lleol a lle mae angen cydymffurfio â dynodiadau statudol a pholisi cenedlaethol.

## 3.4 Y Gymraeg

3.4.1 Byddir yn ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â Safonau'r Gymraeg:[17]

- Mae'r Awdurdod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd gohebwyr yn derbyn ateb yn iaith y llythyr gwreiddiol. Ni fydd cyfathrebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi wrth brosesu eich sylwadau.
- Bydd pob ffurflen sylwadau a llythyr safonol yn ddwyieithog neu yn yr iaith benodol a ddewisir.

[17]Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf

- Bydd holl gyhoeddiadau polisi a chanllawiau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddwyieithog.
- Bydd holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddwyieithog.
- Bydd pob cyfarfod, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yn cael ei gynnal yn ddwyieithog pan ofynnir am hynny o leiaf wythnos ymlaen llaw.
- Bydd yr holl ymgynghoriadau yn cynnwys cwestiynau ynghylch yr effeithiau tebygol ar yr iaith Gymraeg a ph'un a allai cynigion gael eu ffurfio neu eu newid i gael effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg.

## 3.5 Beth fyddwn ni ei angen gennych chi?

3.5.1 Bydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y broses ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cynllun datblygu i'r graddau y maent yn gallu, o fewn yr amserlenni penodol a bennir yn y Cytundeb Cyflawni. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn deg, yn dryloyw ac yn agored er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi. Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i bobl a sefydliadau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau i'r manylion cyswllt.

3.5.2 Bydd pawb sy'n cyflwyno sylwadau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r ffurflen safonol a baratowyd gan yr Awdurdod, gan nodi'n glir y rhan benodol o'r cynllun y mae eu sylwadau'n ymwneud â hi. Bydd pawb sy'n cyflwyno sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hannog i gysylltu eu sylwadau â'r profion cadernid (Atodiad 1).

## 3.6 Pwy fydd yn cymryd rhan a sut?

3.6.1 Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau ein bod yn cysylltu â phobl a'u bod yn cadw mewn cysylltiad â ni drwy gydol y broses fel y nodir yn Amserlen y CDLl (Pennod 2) ac yn atodiad 2 'Camau Manwl paratoi CDLl 3'.

3.6.2 Mae ymgyngoreion wedi'u trefnu i wahanol grwpiau, sy'n cynnwys:
- Y Cyhoedd
- Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned
- Cyrff Ymgynghori Penodol
- Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgyngoreion Eraill
- Rhanddeiliaid Allweddol
- Datblygwyr, Tirfeddianwyr, Asiantau a'r rheini sy'n cynnig safleoedd ar gyfer datblygu

3.6.3 Mae gwahanol ddulliau o ymgysylltu yn cael eu nodi ar gyfer gwahanol grwpiau er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael. Cofiwch nad yw pob grŵp yn annibynnol ar ei gilydd a bod unigolion neu sefydliadau'n

debygol o gael eu cynrychioli fel rhan o fwy nag un grŵp yn ystod gwahanol gamau yn y broses.

## Y Cyhoedd

3.6.4 Gall fod yn unrhyw aelod o'r cyhoedd yn Sir Benfro a thu hwnt. Gall unigolion, busnesau, sefydliadau a grwpiau gymryd rhan drwy roi sylwadau ar y camau ymgynghori allweddol yn y broses. Gall y rhain fod ar y Cytundeb Cyflawni drafft, cam ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir, a'r Cynllun Adneuo. Mae gan y rheini sy'n gwneud sylwadau'n briodol ar y Cam Adneuo hawl i fod yn bresennol yn yr Archwiliad, er mai mater i'r Arolygydd ei ystyried fydd hynny.

3.6.5 Nid oes gofyniad statudol ar yr Awdurdod i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch Adroddiad yr Adolygiad na'r Cytundeb Cyflawni, fodd bynnag er budd ymgysylltu cynnar a pharhaus, mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn bwysig gwneud hynny.

3.6.6 Er mwyn creu cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl ymysg aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, (nad ydynt ar Restr Gyswllt y Cynllun Datblygu Lleol, a eglurir isod) bydd cyhoeddusrwydd ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar y cynnydd a wneir a phryd y gellir cyflwyno sylwadau.

3.6.7 Nid yw hysbysiadau cyhoeddus yn y papur newydd lleol yn un o ofynion Rheoliadau'r CDLl ac ni fydd yr Awdurdod yn gosod hysbysiadau cyhoeddus yn y papur newydd lleol gan fod y mesur hwn yn gostus ac ystyrir mai cyfyngedig yw'r gynulleidfa. Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, yn ôl yr angen.

3.6.8 Rôl – Mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn helpu'r Awdurdod i ddatblygu gwybodaeth leol fanwl am ardaloedd penodol yn y Parc Cenedlaethol. Gall unigolion sydd â gwybodaeth fanwl a phrofiad o bynciau penodol sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn ffynhonnell wybodaeth allweddol i'r Awdurdod. Bydd y cyhoedd hefyd yn gweithredu fel seinfwrdd ar gyfer sut bydd argymhellion polisi, dyraniadau safleoedd a chynigion manwl eraill yn cael eu derbyn a'r rhesymau dros gefnogaeth neu wrthwynebiad y cyhoedd.

## Rhestr Gyswllt y Cynllun Datblygu Lleol

3.6.9 Gellir ychwanegu unrhyw unigolyn, sefydliad neu grŵp at Restr Cyswllt CDLl Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn iddynt allu cael y wybodaeth ddiweddaraf yn awtomatig ar bob cam dilynol o'r broses. Mae pawb sy'n

perthyn i'r grwpiau ymgyngoreion isod, fel y nodir yn Atodiad 4, wedi'u cynnwys ar restr gysylltiadau'r CDLl.

3.6.10 Er mwyn cael gwybod yn uniongyrchol am gynnydd a chyfleoedd i gyflwyno sylwadau, gall y cyhoedd anfon e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk gan roi manylion cyswllt neu ffonio 01646 624 800 a gofyn am gael eu trosglwyddo i'r tîm Polisi Strategol.

3.6.11 Byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost. Dim ond i'r rheini sydd ag amgylchiadau eithriadol y bydd llythyrau'n cael eu postio er mwyn galluogi'r awdurdod i leihau gwastraff papur, lleihau costau a sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i bawb.

3.6.12 Bydd pawb sy'n cyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnodau ymgynghori statudol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir neu Adneuo yn cael eu hychwanegu at Restr Gysylltiadau'r CDLl.

3.6.13 Bydd yr holl fanylion a ddarperir yn cael eu cadw ar Restr Gysylltiadau'r CDLl ar gyfer cyfnod paratoi CDLl 3. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei storio'n ddiogel ac yn cael ei chadw'n unol â Nodiadau Preifatrwydd Cynllunio'r Awdurdod a'r amserlen cadw data. Gallwch weld yr hysbysiad preifatrwydd cynllunio yma: https://www.arfordirpenfro.cymru/preifatrwydd/ .

3.6.14 I ddad-danysgrifio o Restr Gysylltiadau'r CDLl ar unrhyw adeg, anfonwch e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

## Sicrhau amrywiaeth eang o safbwyntiau[18]

3.6.15 Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gyrraedd yr ystod amrywiol o ddiddordebau yn ein cymunedau, yn amodol ar faint o amser ac adnoddau y gellir eu neilltuo'n rhesymol ar gyfer hyn. Mae grwpiau cynrychioliadol yn cael eu nodi yn atodiad 4 i ehangu ar amrywiaeth o leisiau yn y broses o lunio cynlluniau, gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anabledd a grwpiau hil a chrefyddol gwahanol.

- Mudiadau gwirfoddol ac ieuenctid sy'n gweithredu yn Sir Benfro – drwy gysylltu'n uniongyrchol â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro – Gweler Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori am y mathau o sefydliadau a grwpiau a gynrychiolir.
- Cymuned Sipsiwn a Theithwyr – drwy gysylltu ag adran Dai Cyngor Sir Penfro.

[18]Gweler Atodiad 4 am restr.

- Ffermwyr – drwy gysylltu'n uniongyrchol â Swyddog Cyswllt Amaethyddol y Parc Cenedlaethol a dosbarthu gwybodaeth mewn sioeau amaethyddol lleol yn Sir Benfro. Gweler Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori am y mathau o sefydliadau a grwpiau a gynrychiolir.
- Pobl ifanc – drwy gysylltu'n uniongyrchol â fforwm ieuenctid y Parc Cenedlaethol 'Y Genhedlaeth Nesaf', y swyddogion addysg a thrwy ymweliadau ag ysgolion.

3.6.16 Rôl – Bydd y rheini sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i leisio dyheadau, gofynion neu bryderon y grwpiau hynny. Bydd ymgysylltu gweithredol gan y grwpiau hyn yn helpu'r Awdurdod i ystyried effeithiau ei gynigion ar gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

## Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned[19]

3.6.17 Bydd yr Awdurdod yn ceisio ymgysylltu'n uniongyrchol â Chynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned ar gamau priodol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ymgysylltu ar-lein yn ystod camau allweddol paratoi'r cynllun.

3.6.18 Mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio galluoedd rhwydweithio Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned i godi ymwybyddiaeth ac annog ymgysylltiad â phroses y CDLl ar adegau allweddol.

3.6.19 Rôl – Gall Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a'u Cynghorwyr ddarparu ffynhonnell ganolog o wybodaeth i'w cymunedau lleol, gallant helpu i godi ymwybyddiaeth o'r broses adolygu a chyfleu barn a safbwyntiau lleol yn ôl i'r Awdurdod.

## 'Cyrff Ymgynghori Penodol'[20]

3.6.20 Mae Rheoliadau CDLl (rheoliad 2) yn diffinio bod 'Cyrff Ymgynghori Penodol' yn cynnwys y cyrff hynny sydd â swyddogaethau penodol sy'n berthnasol yn y Parc Cenedlaethol, er enghraifft Dŵr Cymru fel ymgymerwr dŵr.

3.6.21 Bydd yr ymgyngoreion hyn yn cael cyfle i roi sylwadau ar gamau ffurfiol allweddol (statudol) wrth baratoi'r Cynllun. Bydd rhai o'r grwpiau hyn hefyd yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill.

[19]Gweler Atodiad 4 am restr.

[20]. Gweler Atodiad 4 am restr.

3.6.22 Gall yr Arolygydd hefyd wahodd presenoldeb yn y Gwrandawiad Terfynol hyd yn oed os nad oedd yr ymgynghorai statudol wedi mynegi gwrthwynebiad neu'n dymuno ymddangos mewn archwiliad.

3.6.23 Rôl – bydd ymgyngoreion yn y grŵp hwn yn gallu darparu cyngor proffesiynol manwl ar gynigion y Cynllun, nodi gwrthdaro posibl â'u dyletswyddau perthnasol, addasrwydd a'r gallu i gyflawni safleoedd ar gyfer eu datblygu, gwrthdaro annisgwyl â deddfwriaeth arall ac ati.

## Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgyngoreion Eraill[21]

3.6.24 Mae'r Rheoliadau CDLl (rheoliad 2) yn diffinio bod 'Cyrff Ymgynghori Cyffredinol' yn cynnwys cyrff gwirfoddol y mae eu gweithgareddau o fudd i'r Parc Cenedlaethol, y rheini sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hiliol, crefyddol, ethnig, cenedlaethol neu anabl gwahanol yn y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'r rheini sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n cynnal busnes a'r rheini sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru. Mae'r grŵp hwn, er enghraifft, yn cynnwys Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Anabledd Cymru ac ati (Gweler Atodiad 4 'Cyrff Ymgynghori Cyffredinol').

3.6.25 Mae 'Ymgyngoreion eraill' wedi cael eu nodi gan yr Awdurdod ac nid ydynt o reidrwydd yn dod o fewn y categorïau uchod a restrir ar gyfer cyrff ymgynghori cyffredinol, ond mae ganddynt fuddiant o hyd yn y Parc Cenedlaethol a allai gael ei effeithio gan y CDLl. Mae'r grŵp hwn, er enghraifft, yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Arolwg Daearegol Prydain, Fforwm Arfordir Sir Benfro ac ati. (Gweler Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori ').

3.6.26 Bydd y cyrff hyn yn cael cyfle i roi sylwadau ar gamau ffurfiol allweddol (statudol). Bydd rhai o'r grwpiau hyn hefyd yn aelodau pwysig o grwpiau rhanddeiliaid eraill.

3.6.27 Rôl – Rolau tebyg i'r rhai a nodir uchod yn dibynnu ar natur y corff sy'n cael ei gynrychioli. Bydd disgwyl i nifer o'r cyrff yn y ddau grŵp hyn rannu gwybodaeth ymysg eu cyrff aelodaeth eu hunain er mwyn manteisio i'r eithaf ar waith allanol yr Awdurdod gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## Rhanddeiliaid Allweddol[22]

3.6.28 Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda rhanddeiliaid perthnasol i drafod meysydd newid cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Gall y rhanddeiliaid hyn gynnwys:

[21]Gweler Atodiad 4 am restr.

[22]Gweler Atodiad 4 am restr.

- Cyngor Sir Benfro fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer tai, addysg, priffyrdd, gwastraff, iechyd yr amgylchedd a'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy.
- Awdurdodau cyfagos Ceredigion a Sir Gaerfyrddin
- Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (CJC)
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadw
- Heneb
- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

3.6.29 Mae manylion y rhanddeiliaid hefyd wedi'u nodi ar Restr Gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol.

## Datblygwyr, Tirfeddianwyr, Asiantau a'r rheini sy'n cynnig safleoedd ar gyfer datblygu

3.6.30 Gall unrhyw un sydd â buddiant mewn tir sydd o'r farn y byddai'n briodol ei ddatblygu ddarparu manylion i'r tîm Polisi Strategol yn ystod y cam galw am Safleoedd Ymgeisiol. Bydd ffurflen gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei rhoi ar ein gwefan: https://www.arfordirpenfro.cymru/ ynghyd â chanllawiau ar gyfer cwblhau. Bydd yr Awdurdod yn codi ymwybyddiaeth o'r alwad am safleoedd posibl drwy roi gwybod i bawb ar Restr Gysylltiadau'r CDLl. Bydd gweithdy ar-lein yn cael ei gynnal ar gyfer tirfeddianwyr ac asiantau, ond mae croeso i unrhyw un gofrestru i fod yn bresennol. Bydd swyddogion hefyd yn codi ymwybyddiaeth yn fforwm Asiantau Cynllunio Sir Benfro.

3.6.31 Bydd manylion yr holl safleoedd a gyflwynir yn cael eu cofnodi ar Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol. Bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr ag ymgynghoriadau'r Strategaeth a Ffefrir ac Adneuo.

3.6.32 Bydd unrhyw safle a gyflwynir yn ystod y cam Safleoedd Ymgeisiol neu'r cam Ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir yn cael ei asesu gan yr Awdurdod yn erbyn meini prawf ar gyfer dewis safle. Bydd y meini prawf ar gyfer dewis safle yn cael eu paratoi ar y cam Safleoedd Ymgeisiol. Bydd yr Awdurdod yn ymgynghori â Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Penfro a rhanddeiliaid allweddol eraill ar restr o safleoedd ar y gofrestr a fyddai'n gydnaws â Strategaeth a Ffefrir yr Awdurdod. Bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei chyhoeddi yn y camau Strategaeth a Ffefrir ac Adneuo.

3.6.33 Mae'n hanfodol bod hyrwyddwyr safleoedd posibl yn gwerthfawrogi y bydd cynnig safleoedd ar ôl y cam strategaeth a ffefrir yn golygu ei bod yn

annhebygol y gellir ystyried eu cynnwys yn y cynllun. Dylid nodi'n glir mai'r alwad am safleoedd ymgeisiol yw'r amser priodol i gyflwyno safleoedd er mwyn gallu cynnal digon o ymgynghori i hysbysu'r broses archwilio. (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, paragraff 3.38).

3.6.34 Os bu newid sylweddol mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar safle a wrthodwyd yn flaenorol, neu fod safle cwbl newydd yn cael ei gyflwyno yn ystod y cam Cynllun Adneuo, cyfrifoldeb y cynigydd yw profi effeithiau eu safle gan ddefnyddio fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol. (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, paragraff 3.73). Os nad oes safle newydd neu amgen wedi bod yn destun unrhyw Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae'n annhebygol y bydd yr Arolygydd mewn sefyllfa i argymell ei gynnwys yn y CDLl. (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, paragraff 3.73).

3.6.35 Bydd manylion yr Atebydd hefyd yn cael eu nodi ar Restr Gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol.

## 3.7 Adborth

3.7.1 Yn dilyn camau ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir ac Adneuo, bydd yr adborth yn cael ei ddarparu fel a ganlyn:

- E-bost neu lythyr cydnabod yn rhoi manylion cyswllt a manylion ynghylch sut bydd yr Awdurdod yn delio â'r sylwadau. Mae cyngor ar sut bydd sylwadau hwyr yn cael eu trin wedi'i nodi yn yr adran nesaf.
- Bydd adroddiad o ymgynghoriadau gydag ymatebion y Swyddogion ar ôl pob cyfnod ymgynghori ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Awdurdod.
- Bydd deisebau a ddaw i law yn cael eu cydnabod yn yr un ffordd i gyflwynydd y ddeiseb.
- Bydd gwefan yr Awdurdod: https://www.arfordirpenfro.cymru/ yn darparu diweddariadau rheolaidd.

## 3.8 Deisebau

3.8.1 Bydd deisebau a dderbynnir yn ystod y cyfnodau ymgynghori statudol yn cael eu cydnabod a'u cofrestru fel sylwadau dilys.  Rhaid cael un person penodol i gyflwyno'r ddeiseb.  Bydd yr Awdurdod yn anfon e-bost cydnabod neu lythyr at gyflwynydd y ddeiseb, a bydd ganddynt yr hawl i gael eu clywed yn ystod y cyfnod archwilio, yn amodol ar gytundeb yr Arolygydd.  Nid yw hyn yn cyfyngu ar hawl unigolion sy'n llofnodi'r ddeiseb i gyflwyno sylwadau ffurfiol ar wahân i'r Cynllun.

## 3.9 Sylwadau hwyr

3.9.1 Rhaid cyflwyno sylwadau drwy e-bost neu'n ysgrifenedig i Awdurdod y Parc Cenedlaethol erbyn y dyddiad cau a nodir. Er mwyn iddynt gael eu cofnodi fel sylwadau ar CDLI sydd 'wedi'u gwneud yn briodol', rhaid iddynt nodi'r materion y maent yn berthnasol iddynt adeg y cam Ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir. Yn y Cam Adneuo, dylent nodi'r materion y maent yn berthnasol iddynt a'r newid sy'n cael ei geisio, ar ba sail y maent yn cael eu gwneud a, lle bynnag y bo modd, y prawf/profion cadernid y maent yn berthnasol iddynt.

3.9.2 Darperir cyngor ar gyflwyno safleoedd ymgeisiol dan 'Datblygwyr ac Asiantau a'r rheini sy'n cynnig safleoedd ar gyfer datblygu.'

3.9.3 Dylai gwrthwynebiadau nodi'r newid a geisir, ar ba sail y cânt eu gwneud a, lle bynnag y bo modd, y profion cadernid y maent yn berthnasol iddynt.

3.9.4 Gellir ystyried gwrthwynebiadau a wnaed yn y Cam Adneuo yn yr Archwiliad. Nid yw sylwadau a gyflwynir yn y Cam Strategaeth a Ffefrir yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd.

3.9.5 Os ceir cynrychiolaeth yn hwyrach na'r dyddiad cau ac yr oedd ymgais glir gydag ewyllys da i gyflwyno mewn pryd, gellir o hyd ystyried bod y cyflwyniad 'wedi'i wneud yn briodol' ar yr amod bod tystiolaeth wrthrychol briodol o bostio neu ddanfon yn cael ei darparu i foddhad rhesymol yr Awdurdod.

3.9.6 Gall y rheini sydd â hawl statudol i ymddangos gerbron Arolygydd yr archwiliad, a chael eu clywed ganddo (h.y. gwrthwynebwyr, y rheini sy'n ceisio newid y cynllun – o dan Adran 64(6) Deddf 2004), fynd ar drywydd eu gwrthwynebiadau drwy ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig os nad ydynt yn dymuno ymddangos yn yr archwiliad. Mae gwrthwynebiadau a wneir yn y modd hwn yr un mor bwysig i Arolygwyr â'r rhai a wneir ar lafar yn yr archwiliad. (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, paragraff 6.42).

# 4. Monitro ac Adolygu

## 4.1 Cytundeb Cyflawni

4.1.1 Bydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei adolygu os:

- Mae'r broses o baratoi'r Cynllun ar ei hôl hi o ran yr amserlen (h.y. dros 3 mis)
- Os oes angen gwneud newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau
- Os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn yr adnoddau sydd ar gael i baratoi'r Cynllun

4.2.2 Bydd cyflawni amcanion y Cytundeb Cyflawni yn cael ei asesu drwy bob cam o waith paratoi'r Cynllun.

4.2.3 O fewn 3 mis i ddiwedd yr Adneuo, bydd amserlen wedi'i diweddaru sy'n troi'r amserlenni dangosol yn amserlenni pendant ar gyfer y camau sy'n weddill yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i gytuno arnynt.

## 4.2 Cynllun Datblygu Lleol

4.2.1 Rhaid cynnal adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ddim mwy na phedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu.

4.2.2 Bydd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gyflwyno erbyn 31 Hydref bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru ar berfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Bydd yr AMR ar gael ar wefan yr Awdurdod a bydd unrhyw faterion allweddol sy'n codi yn cyfrannu at adolygiad o'r Cynllun.

4.2.3 Bydd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn dod i'r casgliad ynghylch a oes angen adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn llawn neu'n rhannol. Bydd Adroddiad o'r Adolygiad yn cael ei baratoi o fewn chwe mis i benderfyniad ar yr angen i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

# 5. Y camau nesaf

## Ymgynghoriadau cyhoeddus:

5.1.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Gytundeb Cyflawni drafft am gyfnod o wyth wythnos rhwng 19 Mai a 14 Gorffennaf 2025. Ystyriodd swyddogion yr ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi Adroddiad yr Ymgynghoriad. Ystyriodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol Adroddiad yr Ymgynghoriad a chymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni ar 10 Medi 2025. Cytunodd Llywodraeth Cymru â'r Cytundeb Cyflawni ar 3 Hydref 2025.

## Cyhoeddi Cytundeb Cyflawni

5.1.2 Ar ôl i Lywodraeth Cymru gytuno arno, bydd y Cytundeb Cyflawni a gymeradwywyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod a rhaid i'r Awdurdod baratoi CDLl3 yn unol â'r amserlen a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau.

# 6. Cysylltiadau Defnyddiol

## Awdurdod Parc Cenedlaethol

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Polisi Strategol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Gwefan: https://www.arfordirpenfro.cymru/

E-bost: devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Ffôn: 01646 624 800

## Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio yn wasanaeth gwirfoddol sy'n gysylltiedig â'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, sy'n cynnig cyngor annibynnol a phroffesiynol yn rhad ac am ddim ar faterion cynllunio trefol i grwpiau cymunedol ac unigolion na allant fforddio cyflogi ymgynghorydd cynllunio. Dyma'r manylion cyswllt:

Gwefan: Cysylltwch â ni – Planning Aid Wales

E-bost: info@planningaidwales.org.uk

Ffôn: 029 2062 5004

Neu ysgrifennwch at: Cymorth Cynllunio Cymru, 12 Heol y Gadeirlan, Caerdydd. CF11 9LJ

Gweler y canllawiau: Canllawiau Cymunedol ar Gynlluniau Datblygu a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a Cymorth Cynllunio Cymru (Mai 2022)

Canllawiau-Cynlluniau-Datblygu-i-Gymunedau-Cymraeg.pdf

## Atodiad 1 ‘Profion Cadernid’

Cysyniad sylfaenol y system Cynllun Datblygu Lleol yw bod y cynllun yn gynnyrch proses drylwyr a chynhwysfawr o ymgysylltu â’r gymuned, lle mae’r awdurdod cynllunio wedi mireinio’r opsiynau i gynhyrchu’r hyn y mae’n ei ystyried yn gynllun cadarn. Y rhagdybiaeth felly yw bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn oni ddangosir fel arall o ganlyniad i’r dystiolaeth a ystyriwyd yn yr archwiliad.

O ganlyniad, bydd angen i’r rheini sy’n gwrthwynebu ddangos pam nad yw’r cynllun yn gadarn. Bydd pawb sy’n cyflwyno sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hannog i gysylltu eu sylwadau â’r profion cadernid.

Serch hynny, cyfrifoldeb yr Arolygydd penodedig yn ystod y cam archwilio yw ystyried cadernid y cynllun yn ei gyfanrwydd a sicrhau ei fod yn bodloni’r gofynion statudol ar gyfer ei baratoi. Er y bydd yr Arolygwyr yn dal i ystyried gwrthwynebiadau unigol, bydd yn seiliedig ar sut mae’r rhain yn mynd i’r afael â chadernid cyffredinol y cynlluniau.

Mae’r archwiliad yn seiliedig ar asesiad yr Arolygydd o faterion yn y Cynllun ac nid yw’n cael ei yrru gan sylwadau a ddaw i law wrth i’r cynllun gael ei baratoi. Bydd nifer o sesiynau gwrandawiad yn cael eu cynnal a fydd yn cael eu strwythuro o amgylch y materion a nodwyd gan yr Arolygydd fel rhai sy’n hanfodol i gadernid y cynllun.

Mae’r profion cadernid yn ymwneud â thri maes:

**Prawf Cadernid 1: A yw’r Cynllun yn addas?** (h.y. a yw’n glir bod y CDLl yn gyson â Chynlluniau eraill?)

Mae’r canllawiau a nodir yn ‘Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllawiau Gweithdrefnol’ (tudalen 43) yn nodi “Dylai’r awdurdod cynllunio lleol:

- Esbonio sut mae dyraniadau a pholisïau strategol yn gyson â pholisi cenedlaethol, Cymru’r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040, nodau llesiant a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru (os yw’n berthnasol);
- Osgoi ailadrodd polisïau rheoli datblygu cenedlaethol yn wastraffus/diangen;
- Esbonio sut mae’r cynllun yn ystyried cynlluniau/strategaethau eraill, er enghraifft, cyrff trafnidiaeth, cwmnïau cyfleustodau ac asiantaethau sy’n darparu gwasanaethau yn yr ardal, gan gynnwys eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac unrhyw ofynion ar gyfer tir ac eiddo;

- Esbonio sut mae'r cynllun yn berthnasol i'r Cynllun Llesiant neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (os yw'n berthnasol), gan nodi polisïau a chynigion sy'n cyflawni elfennau allweddol y strategaeth honno sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir; a
- Dangos sut mae'r cynllun yn gyson ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos."

**Prawf Cadernid 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (argraffiad 3) yn nodi'r cwestiynau canlynol:

- A yw'n benodol i'r ardal?
- A yw'n rhoi sylw i'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A oes modd dangos y rhesymeg y tu ôl i bolisïau'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
- A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
- A yw'n gydlynol ac yn gyson?
- A yw'n glir a gyda ffocws?

**Prawf Cadernid 3: A fydd y Cynllun yn cyflawni?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (argraffiad 3) yn nodi'r cwestiynau canlynol:

- A yw'n benodol i'r ardal?
- A yw'n rhoi sylw i'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A oes modd dangos y rhesymeg y tu ôl i bolisïau'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?
- A yw'r dewisiadau amgen 'go iawn' wedi cael eu hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
- A yw'n gydlynol ac yn gyson?
- A yw'n glir a gyda ffocws?

## Atodiad 2: Camau manwl paratoi ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3

| **Cytundeb Cyflawni** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Cytundeb Cyflawni Drafft** (Rheoliad CDLl 6 ac 8) | Nodi'r amserlen ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol 3 a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau | Ebrill / Mai 2025 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Aelodau | Gweithdy i Aelodau a gynhaliwyd ar 2 Ebrill 2025 | Drafft o Gytundeb Cyflawni wedi'i baratoi gan swyddogion |

| **Cytundeb Cyflawni** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft** (Rheoliad 7) | Rhoi gwybod i randdeiliaid a'r cyhoedd am y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol 3<br><br>Gofyn am farn rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y Cytundeb Cyflawni drafft | Ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos wedi'i gynnal 19 Mai i 14 Gorffennaf 2025 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Pob ymgynghorai[23] | Cyhoeddi ar y wefan<br><br>Hysbysiad drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai | Cyhoeddi Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer ymgynghoriad ar-lein ac yn swyddfa Llanion |

[23]gan gynnwys Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorau Tref, Dinas a Chymuned a Chynghorwyr, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgyngoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol

| Cytundeb Cyflawni | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Cwblhau'r Cytundeb Cyflawni a chael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru** (Rheoliad CDLl 9) | Newid y Cytundeb Cyflawni yn dilyn yr ymgynghoriad a cheisio cymeradwyaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. | Ystyried yr ymatebion ym mis Awst 2025.<br>Ceisio cymeradwyaeth APC ym mis Medi<br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ym mis Medi/Hydref 2025 | Tîm Polisi Strategol<br>Aelodau APC<br>Llywodraeth Cymru | Cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i Aelodau APC a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo | Cyhoeddi Cytundeb Cyflawni Cymeradwy ar y wefan |

| Cytundeb Cyflawni | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Cyhoeddi Cytundeb Cyflawni wedi'i gymeradwyo** (Rheoliad CDLl 9 ac 10) | Rhoi gwybod i'r holl ymgyngoreion am y Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno | Hydref/Tachwedd 2025 | Tîm LDP | Cyhoeddi ar y wefan<br><br>Hysbysiad drwy e-bost at bawb/llythyr at y rhai a ofynnodd am un.<br><br>Copi papur ar gael yn swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Parc Llanion, Doc Penfro. | Cyhoeddi Cytundeb Cyflawni wedi'i gymeradwyo ar y wefan a bydd copi papur ar gael i'w weld ym Mharc Llanion. |

| Cyfranogiad Cyn-adneuo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Paratoi sylfaen dystiolaeth CDLl 3, gan gynnwys fframwaith asesu a llinell sylfaen SA/SEA** (Rheoliad CDLl 14) | I hysbysu gweledigaeth , amcanion, strategaeth a pholisïau Cynllun Datblygu Lleol 3 | Tachwedd 2025 i Hydref 2026 | Tîm Polisi Strategol<br>Rhanddeiliaid Allweddol<br>Aelodau APC<br>Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned<br>Cynghorwyr<br>Cyrff ymgynghori penodol/cyffredinol/erail l yn ôl yr angen.<br>Ymgynghorwyr (lle bo angen) | Gweithdai aelodau | Papurau pwnc / cefndir ac Adroddiad Cwmpasu SA/SEA |

| **Cyfranogiad Cyn-adneuo** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Galwad am Safleoedd Ymgeisiol** (Rheoliad CDLl 14) | Nodi safleoedd datblygu posibl | Cyfnod o 3 mis o Ionawr i Fawrth/Ebril l 2026 | Agored i bawb | Cyhoeddi ar y wefan<br><br>Hysbysiad drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[24]<br><br>Copi papur ar gael yn swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Parc Llanion.<br><br>Datganiad i'r wasg a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol<br><br>Gweithdy ar gyfer unrhyw bartïon sydd â buddiant ond wedi'i anelu at dirfeddianwyr/asiantau/RSLs/Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned | Paratoi'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol |

[24](gan gynnwys Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

| Cyfranogiad Cyn-adneuo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Asesu darpar safleoedd a pharatoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer yr holl safleoedd a dderbynnir** (Rheoliad CDLl 14) | Darparu eglurder a thryloywder ar y safleoedd a dderbynnir a'u hasesiad | Mawrth i Fehefin 2026 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Adrannau perthnasol CSP<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru | Ymgynghori ag ymgymerwyr statudol perthnasol ynghylch dewis safleoedd | Paratoi'r Gofrestr o Safleoedd Ymgeisiol |

| Cyfranogiad Cyn-adneuo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Paratoi Adroddiad Cwmpasu SA/SEA** | Sefydlu'r llinell sylfaen, adolygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol a sefydlu'r fframwaith asesu | Mai 2025 i Ragfyr 2025 | Tîm Polisi Strategol | Ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ôl yr angen | Adroddiad Cwmpasu |

| **Cyfranogiad Cyn-adneuo** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu SA/SEA** | Gwahodd sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu | Ionawr i Chwefror 2026 | Ymgynghoriad o 5 wythnos o leiaf gyda chyrff ymgynghori statudol Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, wedi'i hysbysu drwy e-bost<br><br>Ar gael ar y wefan i unrhyw un roi sylwadau | Gweithdy i Aelodau<br><br>E-bostio Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw<br><br>Cyhoeddi ar y wefan | Adroddiad ar yr ymgynghoriad |

| Cyfranogiad Cyn-adneuo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Nodi gweledigaeth, materion ac amcanion** | Nodi materion allweddol a datblygu gweledigaeth ac amcanion y CDLl | Hydref 2025 i Chwefror 2026 gydag ymgynghori Ionawr i Chwefror 2026 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Aelodau APC<br><br>Rhanddeiliaid Allweddol<br><br>Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned | Gweithdy i Aelodau<br><br>Cyfarfodydd â Rhanddeiliaid Allweddol yn ôl yr angen<br><br>Cyhoeddi ar y wefan<br><br>Hysbysu pob ymgynghorai drwy e-bost/llythyr[25]<br><br>Copi papur ar gael yn swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Parc Llanion.<br><br>Gweithdy ar-lein ar gyfer Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned | Creu consensws ar faterion allweddol, gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y strategaeth a ffefrir |

[25] (gan gynnwys Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

| Cyfranogiad Cyn-adneuo | | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Nodi ac asesu opsiynau twf drwy SA/SEA ac asesiadau effaith** | Nodi ac asesu opsiynau twf i lywio'r strategaeth a ffefrir | Rhagfyr 2025 i Fehefin 2026 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Aelodau APC<br><br>Adrannau perthnasol Cyngor Sir Penfro<br><br>Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned | Gweithdy i Aelodau<br><br>Cyfarfodydd ag adrannau CSP<br><br>Gweithdy ar-lein ar gyfer Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned | Creu consensws ar yr opsiwn twf a ffefrir ar gyfer y strategaeth a ffefrir |
| **Nodi ac asesu opsiynau strategaeth ofodol drwy SA/SEA ac asesiadau effaith** | Nodi ac asesu opsiynau strategaeth ofodol i lywio'r strategaeth a ffefrir | Mawrth i Awst 2026 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Aelodau APC<br><br>Adrannau perthnasol Cyngor Sir Penfro<br><br>Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned | Gweithdy i Aelodau<br><br>Cyfarfodydd ag adrannau CSP<br><br>Holiadur ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned | Creu consensws ar yr opsiwn strategaeth ofodol a ffefrir ar gyfer y strategaeth a ffefrir |

| Ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo ar y Strategaeth a Ffefrir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Paratoi'r Strategaeth a Ffefrir ac adroddiad cychwynnol SA/SEA, yr asesiadau effaith a'r adroddiad HRA a cheisio cymeradwyaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer yr ymgynghoriad** | Ceisio cymeradwyaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer ymgynghoriad | Awst 2026 i Ragfyr 2026 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Aelodau APC | Cyflwyniad i Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Cael sêl bendith i ymgynghori â'r cyhoedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, dogfennau sylfaen dystiolaeth cysylltiedig, cofrestr safleoedd ymgeisiol, SA/SEA cychwynnol, asesiadau effaith a HRA** (Rheoliad CDLl 15 ac 16) | Rhoi cyfle i bawb gyflwyno sylwadau ar y strategaeth a ffefrir a'r dogfennau cysylltiedig | Cyfnod ymgynghori am o leiaf 6 wythnos Ionawr i Fawrth 2027 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Agored i bawb | Gwefan<br><br>Copïau papur o'r Strategaeth a Ffefrir ar gael ym Mharc Llanion, Oriel y Parc ac yn llyfrgelloedd Trefdraeth, Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Bydd copïau papur o'r sylfaen tystiolaeth, papurau cefndir neu asesiadau effaith ar gael ar gais yn unig.<br><br>Hysbysiad drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[26]<br><br>Cyfryngau cymdeithasol | Adroddiad ar yr ymgynghoriad |

| Ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo ar y Strategaeth a Ffefrir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| | | | | Datganiad i'r wasg<br>Sesiynau galw heibio mewn lleoliadau allweddol yn y Parc Cenedlaethol | |

[26](gan gynnwys Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

)

| Ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo ar y Strategaeth a Ffefrir | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi Adroddiad Ymgynghori cychwynnol** (Rheoliad CDLl 16 ac 16A) | Ymateb i sylwadau a ddaw i law drwy adroddiad yr ymgynghoriad a gwneud newidiadau i'r Strategaeth a Ffefrir lle bo angen | Ebrill i Fehefin 2027 | Y tîm polisi strategol i ystyried sylwadau a gyflwynwyd yn briodol | Ddim yn berthnasol | Adroddiad Ymgynghori cychwynnol |

| Cynllun Adneuo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Paratoi Cynllun Adneuo ac adroddiad SA/SEA, yr asesiadau effaith a HRA a cheisio cymeradwyaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer yr ymgynghoriad** | Dogfennau Adneuo wedi'u paratoi a SA/SEA, asesiadau effaith a HRA a chael cymeradwyaeth yr Aelod ar gyfer ymgynghoriad statudol | Gorffennaf 2027 i Chwefror 2028 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Aelodau APC | Cyflwyniad i Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad |

| Cynllun Adneuo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi Adroddiad Ymgynghori** (Rheoliad CDLl 18 a 19) | Cofnodi, ystyried a rhoi sylw i sylwadau a ddaw i law drwy adroddiad yr ymgynghoriad sydd i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w harchwilio. | Mehefin i Fedi 2028 | Y tîm polisi strategol i ystyried sylwadau a wnaed yn briodol a sut y dylid rhoi sylw iddynt yn y CDLl | Adroddiad ar yr ymgynghoriad i'w gyhoeddi ar y wefan | Adroddiad ar yr ymgynghoriad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgynghoriad ar Gynllun Adneuo, dogfennau sylfaen dystiolaeth cysylltiedig, adroddiad ymgynghori cychwynnol, SA/SEA, asesiadau effaith a HRA** (Rheoliad CDLl 17 ac 18) | Rhoi cyfle i bawb gyflwyno sylwadau ar y strategaeth a ffefrir a'r dogfennau cysylltiedig | O leiaf 6 wythnos o gyfnod ymgynghori rhwng mis Mawrth a mis Mai 2028 | Tîm Polisi Strategol<br><br>Agored i bawb | Gwefan<br><br>Copïau papur o'r Cynllun Adnau a'r Map o Gynigion ar gael ym Mharc Llanion, Oriel y Parc ac yn llyfrgelloedd Trefdraeth, Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Bydd copïau papur o'r sylfaen tystiolaeth, papurau cefndir neu asesiadau effaith ar gael ar gais yn unig.<br><br>Hysbysiad drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[27]<br><br>Cyfryngau cymdeithasol | Cydnabod derbyn sylwadau a wnaed yn briodol |

| Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 3 i'w archwilio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen Ddangosol** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **APC i gymeradwyo cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 3 i'w archwilio** | Cael cymeradwyaeth yr Aelod i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 3 i'w archwilio | Medi /Hydref 2028 | Tîm Polisi Strategol<br>Aelodau APC | Cyflwyniad i Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Cymeradwyaeth i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 3 i'w archwilio |
| **Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 3 i'w archwilio'n annibynnol** (Rheoliad CDLl 22) | Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 3 i'w archwilio | Hydref 2028 | Tîm Polisi Strategol | Datganiad ar y wefan<br>Hysbysiad drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[27] | Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol 3 i'w archwilio |

[27](gan gynnwys Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

| Archwiliad annibynnol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen Ddangosol** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Cyfarfod cyn y gwrandawiad** | Cyfarfod cyn y gwrandawiad i nodi'r materion a'r fformat ar gyfer sesiynau'r gwrandawiad | Rhagfyr 2028 | Arolygydd o Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru<br><br>Swyddog Rhaglen<br><br>Tîm Polisi Strategol<br><br>Adrannau perthnasol o CSP<br><br>Bydd pawb a wnaeth argymhellion yn briodol yn cael eu hysbysu | Hysbysiad drwy e-bost neu llythyr at bob ymgynghorai<br><br>Bydd gwybodaeth ar gael ar y wefan<br><br>Yr Arolygydd fydd yn penderfynu ar y weithdrefn | Symud ymlaen i sesiynau gwrandawiad |

| Archwiliad annibynnol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen Ddangosol** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Sesiynau gwrandawiad** | Arolygydd yn archwilio cadernid y Cynllun mewn sesiynau gwrandawiad | Chwefror / Mawrth 2029 | Arolygydd o Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru<br><br>Swyddog Rhaglen<br><br>Tîm Polisi Strategol<br><br>Adrannau perthnasol o CSP<br><br>Pawb a gyflwynodd sylwadau yn briodol yn y cam Adneuo | Yr Arolygydd fydd yn penderfynu ar y gweithdrefnau ar gyfer yr archwiliad<br><br>Cyhoeddwyd gwybodaeth ar y wefan | Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd |

| **Archwiliad annibynnol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen Ddangosol** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Derbyn Adroddiad yr Arolygydd** (Rheoliad CDLl 24) | Bydd Adroddiad yr Arolygydd yn rhoi manylion y newidiadau sy'n rhwymo i Gynllun Datblygu Lleol 3.<br><br>Bydd adroddiad yr Arolygydd yn cael ei wirio gan y tîm Polisi Strategol | Medi 2029 | Arolygydd Cynllunio<br><br>Tîm Polisi Strategol<br><br>Aelodau APC | Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar y wefan<br><br>Hysbysiad drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[28]<br><br>Copi papur ar gael ym Mharc Llanion.<br><br>Briffio Aelodau APC ar Adroddiad yr Arolygydd | Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar y wefan |

[27] (gan gynnwys Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

| Mabwysiadu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen Ddangosol** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Mabwysiadu CDLl 3 gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol** | Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 3 o fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd | Tachwedd 2029 | Aelodau APC<br><br>Tîm Polisi Strategol | Cyflwyniad i Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Cytundeb APC i fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 3. |

| **Mabwysiadu** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Allweddol** | **Pwrpas** | **Amserlen Ddangosol** | **Pwy fydd yn cymryd rhan?** | **Dull ymgysylltu** | **Canlyniad/ Mecanwaith Adrodd** |
| **Cyhoeddi Cynllun Datblygu Lleol 3, datganiad mabwysiadu, Adroddiad SA/SEA terfynol** | Hysbysu'r holl ymgyngoreion ynghylch mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 3 | Ar ôl mabwysiadu | Tîm Polisi Strategol | Gwefan<br><br>Hysbysiad drwy e-bost/llythyr at bob ymgynghorai[29]<br><br>Cyfryngau cymdeithasol<br><br>Datganiad i'r wasg | Cynllun Datblygu Lleol 3 wedi'i Fabwysiadu ar gael ar y wefan |

[29](gan gynnwys Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y cyhoedd sydd wedi cofrestru ar restr gysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynghorau a Chynghorwyr Tref, Dinas a Chymuned, Cyrff Ymgynghori Penodol, Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac ymgynghoreion eraill, rhanddeiliaid a datblygwyr allweddol, tirfeddianwyr ac asiantau sydd wedi'u cofrestru ar restr cysylltiadau'r Cynllun Datblygu Lleol)

## Atodiad 3: Risgiau i’r amserlen

| Dyddiad | Lefel Risg | Effaith bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Prinder staff | Canolig | Llithriant yn y Rhaglen | Ceisio cymorth gan awdurdodau cynllunio eraill. Blaenoriaethu hysbysebion staff. Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith gydag Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol. |
| Materion Deddfwriaeth Genedlaethol/Polisi/Llywodraethiant yn esblygu | Uchel | Llithriant yn y Rhaglen | Monitro a mynd i’r afael lle bo hynny’n ymarferol. |
| Cylchoedd etholiadau | Canolig | Llithriant yn y Rhaglen | Disgwylir etholiadau lleol ym mis Mai 2027.<br><br>Trefnu hyfforddiant i aelodau ar ôl etholiadau |
| Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru | Isel | Llithriant yn y Rhaglen os oes rhaid i staff gyfrannu | Cyfleu goblygiadau o ran adnoddau wrth gytuno ar adnoddau a lefelau staffio ar gyfer y CDS. |
| Diffyg adnoddau ariannol | Canolig | Llithriant yn y Rhaglen | Gwneud cais am adnoddau fel rhan o gylch y gyllideb a rhaglennu yn unol â hynny.<br><br>Lleihau costau drwy gydweithio ag awdurdodau cyfagos lle bo hynny’n bosibl.<br><br>Cronfa wrth gefn a gronnwyd ar gyfer |

| Dyddiad | Lefel Risg | Effaith bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | | CDLl 3 ac archwiliad annibynnol |
| Lefelau annisgwyl o wrthwynebu | Canolig | Llithriant yn y Rhaglen | Sicrhau cyfleoedd addas ar gyfer cydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned.<br><br>Darparu hyblygrwydd yn yr amserlen. |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio neu ymgyngoreion statudol ddim yn gallu cwrdd â'r amserlen | Isel | Llithriant yn y Rhaglen | Cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio yng nghamau allweddol paratoi'r Cynllun ac yn ystod y gwaith o baratoi'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth |
| Y cynllun yn methu'r prawf cadernid | Canolig/ Uchel | Mae rhan o'r Cynllun yn cael ei heithrio neu ei newid<br><br>Mae angen cynnwys deunydd ychwanegol yn y Cynllun cyn mabwysiadu<br><br>Tynnu'r Cynllun i gyd yn ôl | Cysylltu â Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Awdurdod a sicrhau bod gweithdrefn a chynnwys y cynllun yn gadarn wrth fynd yn ei flaen i'w gyflwyno i'w archwilio. |
| Anhawster caffael gwybodaeth / arbenigedd angenrheidiol i hysbysu CDLl 3 | Canolig | Llithriant yn y Rhaglen | Ymgysylltu ag ymgynghorwyr yn gynnar ar gyfer |

| Dyddiad | Lefel Risg | Effaith bosibl | Camau Lliniaru |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | meysydd pwnc allweddol |
| Oedi wrth argraffu neu gyfieithu | Isel | Llithriant yn y Rhaglen. | Sicrhau nad yw'r dull fformatio a chyflwyno yn dibynnu ar fewnbwn graffeg sylweddol. Sicrhau bod Cyfieithwyr ar gael i gyfieithu dogfennau o sylwedd. |
| Her Gyfreithiol | Isel | Cynllun Mabwysiedig yn cael ei ddiddymu<br><br>Llwyth gwaith ychwanegol | Sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion statudol. Cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch mesurau lliniaru. |

# Atodiad 4 Grwpiau Ymgynghori

## Grwpiau sy’n cynrychioli anghenion y gymuned

| |
|---|
| Adferiad (Hafal gynt) |
| Age Cymru Sir Benfro |
| Cyngor ar Bopeth Sir Benfro |
| Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Cymunedau yn Gyntaf (Gorllewin Llanion, Cil-maen) |
| Anabledd Cymru |
| Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl |
| Tîm Amrywiaeth Heddlu Dyfed Powys |
| Merched y Wawr Sir Benfro |
| Mind Cymru Sir Benfro |
| Path Sir Benfro |
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) – gweler y rhestr isod |
| Cymdeithas Deillion Sir Benfro |
| Cymdeithas Gofal Sir Benfro |
| Clwb Arwyddo a Rhannu |
| Cymdeithas Plant Byddar Sir Benfro |
| Cyngor Cymru i Bobl Fyddar |
| Ffederasiwn Sefydliad y Merched Sir Benfro |
| Fforwm Pembrokeshire 50 Plus |

| |
|---|
| Grŵp Cyfathrebu Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro, dan gadeiryddiaeth Cyngor Sir Penfro |
| Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro |
| Shelter Cymru |
| Sefydliad Cynnwys Pobl Ethnig |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Cymru Egnïol |
| Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru |
| Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid |

| Mae'r Grwpiau a'r Sefydliadau a Gynrychiolir gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro yn cynnwys |
|---|
| Grwpiau Celfyddydau |
| Gofalwyr |
| Elusennau |
| Grwpiau Plant |
| Grwpiau Cymunedol |
| Grwpiau Anabledd |
| Grwpiau Addysg a Hyfforddiant |
| Grwpiau Amgylcheddol |
| Grwpiau Ffydd |
| Grwpiau Iechyd |
| Grwpiau Treftadaeth a Diwylliant |

| |
|---|
| Digartrefedd |
| Grwpiau Garddwriaethol |
| Grwpiau Tai |
| Grwpiau Crefyddol |
| Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid |
| Sgowtiaid |
| Dinasyddion Hŷn |
| Clybiau Chwaraeon a Hamdden |
| Grwpiau Trafnidiaeth Gwirfoddol |
| Grwpiau Cymraeg |
| Cymorth i Fenywod |
| Sefydliad y Merched |
| Ffermwyr Ifanc |
| Grwpiau Ieuenctid |

| Cyrff Ymgynghori Penodol ac Adrannau Llywodraeth y DU |
|---|
| British Gas, Ecotricity, EDF, Eon, Dŵr Cymru, Good Energy, London Energy, Scottish Power, National Grid Company, Western Power Distribution, OFCOM, Openreach, Utilita, BT Group plc, EE, Vodaphone, O2, 3 (Three), Virgin Media, |
| CADW |
| Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Yr Adran Ynni Diogelwch a Sero Net |

| |
|---|
| Yr Adran Fusnes a Masnach |
| Yr Adran Drafnidiaeth |
| Dŵr Cymru |
| Y Swyddfa Gartref |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Network Rail |
| Cyngor Sir Benfro |
| Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) Sir Benfro |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Pobl sy’n berchen ar gyfarpar electronig neu’n ei reoli |
| Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer swyddogaethau a oedd yn cael eu harfer yn flaenorol gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol) |
| Cynghorau Tref a Chymuned (a chynghorau tref a chymuned cyfagos) gweler y rhestr ar wahân isod |
| UK Ltd, |
| Llywodraeth Cymru – amryw o adrannau, gan gynnwys cynllunio |

| Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned *[30] |
|---|
| Amroth |
| Angle |

[30]*Y tu allan yn gyfan gwbl, ond yn ffinio â'r Parc Cenedlaethol.

| |
|---|
| Breudeth |
| Burton |
| Camros |
| Aberteifi* |
| Caeriw |
| Cilgerran* |
| Cilymaenllwyd* |
| Clunderwen* |
| Cosheston |
| Crymych |
| Cwm Gwaun |
| Dale |
| Dinas Cross |
| East Williamston* |
| Eglwyswrw |
| Eglwys Gymyn* |
| Abergwaun a Thref Wdig |
| Freystrop |
| Cas-lai |
| Herbrandston |
| Hook |
| Hundleton |

| |
|---|
| Jeffreyston |
| Johnston |
| Cilgeti/Begeli |
| Llandyfái |
| Llangwm |
| Llanrhian |
| Llawhaden |
| Maenclochog |
| Maenorbŷr |
| Marloes a Sain Ffraid |
| Martletwy |
| Mathri |
| Pont Fadlen |
| Aberdaugleddau |
| Mynachlog-ddu |
| Nanhyfer |
| Trefdraeth |
| Nolton a’r Garn |
| Tref Penfro* |
| Penalun |
| Pencaer |
| Cas-mael |

| |
|---|
| Saundersfoot |
| Scleddau |
| Solfach |
| Tyddewi |
| Llandudoch |
| St Florence* |
| Llanisan-yn-Rhos |
| St Mary Out Liberty |
| Ystagbwll a Chastellmartin |
| Tref Dinbych-y-pysgod |
| Yr Aberoedd |
| Uzmaston, Boulston a Slebets |
| Castell Walwyn |
| Y Ferwig* |

| Cyrff Ymgynghori Cyffredinol | |
|---|---|
| (i) Cyrff gwirfoddol sydd o fudd i'r ardal | gweler y rhestr 'Grwpiau sy'n cynrychioli anghenion y gymuned' |
| (ii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol gwahanol yn yr ardal | Cyngor ar Bopeth Sir Benfro<br>Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br>Cyngor Sipsiwn y DU<br>Friends, Families and Travellers (FFT) |

| | |
|---|---|
| | Sefydliad Cynnwys Pobl Ethnig<br><br>Cymru Egnïol<br><br>Grŵp Cyfathrebu Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro, dan gadeiryddiaeth Cyngor Sir Penfro |
| (iii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn yr ardal | Eglwys Gristnogol Uniongred yng Nghymru<br><br>Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru<br><br>Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr<br><br>Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru<br><br>Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru<br><br>Cyngor Hindŵaidd y DU<br><br>Cyngor Mwslimiaid Prydain<br><br>Cyngor Arweinyddiaeth Iddewig<br><br>Cyngor Mwslimiaid Cymru<br><br>Cymdeithas Ddiwylliannol Gorllewin Cymru a Masjid<br><br>Eglwys Gobaith Sir Benfro |
| (iv) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn yr ardal | Anabledd Cymru<br><br>Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl<br><br>Mind Cymru<br><br>Cyngor Cymru'r Deillion<br><br>Cyngor Cymru i Bobl Fyddar<br><br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br><br>Mental Health Matters Wales |

| | |
|---|---|
| | Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru<br><br>Cymdeithas Alzheimer's<br><br>CWTCH Sir Benfro<br><br>DPJ Foundation<br><br>Canolfan Therapi Sglerosis Ymledol HOPE<br><br>Anabledd Dysgu Cymru<br><br>Mencap Cymru<br><br>AP Cymru - Elusen Niwroamrywiaeth Cymru<br><br>Cymorth Canser Sir Benfro |
| (v) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n cynnal busnes yn yr ardal. | Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain<br><br>Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol<br><br>Porthladd Rhydd Celtaidd<br><br>Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)<br><br>Ffederasiwn Adeiladwyr Tai<br><br>Croeso Sir Benfro<br><br>Renewable UK<br><br>Ymgyrch dros Gwrw Iawn<br><br>Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad<br><br>Undeb Amaethwyr Cymru<br><br>Ffederasiwn Busnesau Bach<br><br>Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr<br><br>Cymdeithas Amaethyddol Sir Benfro (Pwyllgor Sioe) |

| | |
|---|---|
| | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru<br><br>Rail Freight Group<br><br>Sefydliad Cyfarwyddwyr De a Gorllewin Cymru<br><br>Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru |
| (vi) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr awdurdod. | Cadw<br><br>Heneb<br><br>Menter Iaith Sir Benfro<br><br>Cymdeithas yr Iaith Sir Benfro<br><br>Ymddiriedolaeth Adeiladau Hanesyddol Sir Benfro<br><br>REACH Cymru<br><br>Urdd Gobaith Cymru<br><br>Cymdeithas Hanes Sir Benfro<br><br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

## Ymgyngoreion Eraill

| |
|---|
| Gweithredwyr Meysydd Awyr |
| Cymdeithas Agregau Prydain |
| Arolwg Daearegol Prydeinig |
| Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, perchnogion camlesi ac awdurdodau mordwyo |
| Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg |
| Canolfan y Dechnoleg Amgen |
| Siambrau Masnach, CBI lleol a changhennau lleol Sefydliad y Cyfarwyddwyr |
| Yr Awdurdod Hedfan Sifil |

| |
|---|
| Yr Awdurdod Glo |
| Gwyliwr y glannau |
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad |
| Swyddfa Ystâd y Goron |
| Comisiwn Dylunio Cymru |
| Anabledd Cymru |
| Disability Rights UK |
| Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl |
| Grwpiau Addysg a Hyfforddiant sy’n gweithredu yn Sir Benfro |
| Cwmnïau Trydan, Nwy a Thelegyfathrebu a Chwmni’r National Grid |
| Grwpiau amgylcheddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol |
| Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff) |
| Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Gwerthwyr Tai sy’n gweithredu yn Sir Benfro |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Meysydd Chwarae Cymru |
| Gwasanaethau Tân ac Achub |
| Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau |
| Cyngor Sipsiwn y DU |
| Awdurdodau Harbwr |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) |
| Ffederasiwn Adeiladwyr Tai |
| Grwpiau cymunedol, cadwraeth ac amwynder lleol, gan gynnwys Agenda 21 |
| Grwpiau/Cymdeithasau Dinesig |

| |
|---|
| Gweithredwyr trafnidiaeth lleol |
| Busnesau lleol sy'n gweithredu yn Sir Benfro |
| Gweithredwyr Mwynau yn Sir Benfro |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru |
| Un Llais Cymru |
| Cymorth Cynllunio Cymru |
| Gweithredwyr Porthladdoedd |
| Daliadau Eiddo Swyddfa'r Post |
| Cyrff cynllunio ac Ymgynghorwyr |
| Princes Gate |
| Cyrff Proffesiynol na restrir yn benodol (e.e. Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yng Nghymru, Sefydliad Cynllunio Trefi Brenhinol yng Nghymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff) |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau |
| Rail Freight Group |
| Gorsafoedd yr RNLI yn Sir Benfro |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru |
| Chwaraeon Cymru |
| Statkraft |
| Cwmnïau Trên |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Cwmnïau Dŵr |
| Gweithredwyr Gwastraff yn Sir Benfro |

| |
|---|
| Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (yn cynrychioli'r diwydiant gwastraff) |
| Comisiynydd yr Iaith Gymraeg |
| Purfa Valero Sir Benfro |

## Rhanddeiliaid Allweddol

| |
|---|
| Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain |
| CADW |
| Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Dŵr Cymru – Gwasanaethau i Ddatblygwyr |
| Asiantaeth Cefnffyrdd DeCymru |
| Heneb |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ffederasiwn Adeiladwyr Tai |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus d/o Cyngor Sir Penfro |
| Un Llais Cymru |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Asiantau Cynllunio Sir Benfro d/o Cyngor Sir Penfro |
| Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) |
| Fforwm Arfordir Sir Benfro |
| Ynni Cymunedol yn Sir Benfro |
| Cyngor Sir Benfro |

| |
|---|
| PLANED |
| Grŵp Cynllunio Mwynau De-orllewin Cymru |
| Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru |
| Grŵp Cynllunio Gwastraff De-orllewin Cymru |
| Llywodraeth Cymru |

## Atodiad 5 'Rhestr Termau'

| | |
|---|---|
| **Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR)** | Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae polisïau yn y cynllun datblygu lleol mabwysiedig yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) |
| **Gwaelodlin** | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal y mae'n rhaid mesur newid yn ei herbyn. |
| **Safle Ymgeisiol** | Safleoedd Ymgeisiol yw'r rhai a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel dyraniadau mewn Cynllun Datblygu Lleol newydd. |
| **Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol** | Cofrestr o safleoedd ymgeisiol a baratoir yn dilyn galwad am safleoedd ymgeisiol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| **Cymuned** | Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol benodol, neu sy'n rhannu diddordebau eraill ac felly'n ffurfio cymunedau o ddiddordeb. |
| **Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)** | Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn bridiant cynllunio, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 fel arf i awdurdodau cynllunio lleol helpu i ddarparu seilwaith i gefnogi datblygiad eu hardal. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. Nid oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol CIL sydd wedi'i fabwysiadu. |
| **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS)** | Mae'n nodi cynllun y prosiect a pholisïau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, yn y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu lleol. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni i gytuno arno. |
| **Datblygu consenswS** | Proses o ddeialog gynnar gyda grwpiau â buddiant wedi'u targedu i ddeall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau gweithredu. |
| **Ymgynghoriad** | Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc neu set o bynciau penodol, neu ddogfen ddrafft. |

| | |
|---|---|
| **Corff Ymgynghori** | Awdurdod gyda chyfrifoldebau amgylcheddol sy'n ymwneud ag effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni, ac y mae'n rhaid ymgynghori â nhw o dan Reoliadau SEA; h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) and Cadw. |
| **Ymarfer ymgynghori** | Prosiect ymgynghori unigol sy'n canolbwyntio ar amcan diffiniedig ac sydd fel arfer yn rhan o raglen ymgynghori gyffredinol. |
| **Dangosydd Cyd-destunol** | Dangosydd a ddefnyddir i fonitro newidiadau yn y cyd-destun y mae'r cynllun yn cael ei weithredu ynddo. |
| **Cytundeb Cyflawni (DA)** | Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r CDLl ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i gytuno arno. |
| **Cynllun Adneuo** | Dyma ddrafft llawn o CDLl 3 sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o chwe wythnos o leiaf cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno i'w archwilio gan Arolygydd. |
| **Polisïau rheoli datblygu** | Cyfres o bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf a fydd yn sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn yr ardal yn bodloni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth. |
| **Dulliau deialog** | Technegau rhyngweithio gwahanol sy'n creu deialog barhaus rhwng ac ymysg grwpiau yr effeithir arnynt. |
| **Gwnaed yn briodol** | Sylwadau i'r ymgynghoriad ar y cynllun datblygu sy'n cael eu gwneud yn y ffordd gywir ac o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig. |
| **Ymgysylltu** | Proses sy'n annog ystyriaeth sylweddol mewn cymuned. Ymdrech ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl/rhan o'r gymuned. |
| **Adroddiad Amgylcheddol** | Ddogfen sy'n ofynnol o dan Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n nodi, yn disgrifio ac yn arfarnu effeithiau arwyddocaol tebygol gweithredu'r cynllun ar yr amgylchedd, gweler Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd. |
| **Sylfaen Dystiolaeth** | Dehongliad o ddata Llinell Sylfaen neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi'r cynllun. |
| **Archwiliad** | Mae'r archwiliad yn cynnwys archwiliad cyhoeddus o'r CDLl 3 Adneuo, y sylwadau Adneuo, adroddiad yr |

| | |
|---|---|
| | ymgynghoriad, dogfennau cefndir/sylfaen tystiolaeth a'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r asesiadau effaith. Gwneir hyn gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ar ran Llywodraeth Cymru. |
| **Newid â Ffocws (FC)** | Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo cyn ei gyflwyno, sy'n gyfyngedig iawn o ran nifer, sy'n adlewyrchu darnau allweddol o dystiolaeth, ond nad ydynt yn mynd i galon y cynllun. |
| **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)** | Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn ymwneud ag asesu effeithiau cynllun (neu brosiect) yn erbyn amcanion cadwraeth natur y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA)) ar gyfer unrhyw effeithiau sylweddol tebygol. Mae HRA hefyd yn cadarnhau a fyddai'r cynllun arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar uniondeb y safle. |
| **Dangosydd** | Mesur o newidynnau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur cyflawniad amcanion. |
| **Adroddiad SA Cychwynnol** | Term a ddefnyddir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu i gyfeirio at Adroddiad yr Arfarniad SA, a gynhyrchwyd yn ystod y cam Strategaeth a Ffefrir. Mae hyn yn asesu opsiynau'r CDLl yn erbyn y fframwaith SA. Mae'r adroddiad wedyn yn cael ei ehangu yn y cam Cynllun Datblygu Lleol Adneuo a'i gwblhau ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu. |
| **Adroddiad yr Arolygydd** | Yr Adroddiad gaiff ei baratoi gan Arolygydd annibynnol sy'n archwilio Cynllun Datblygu Cynaliadwy 3. Mae Adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys argymhellion ar gynnwys y CDLl 3 terfynol ac mae'n rhwymo'r Awdurdod. Rhaid i'r Awdurdod fabwysiadu CDLl 3 o fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd. |
| **Cyfranogiad** | Term generig sy'n cynnwys technegau cyfranogi ac ymgynghori. |
| **LANDMAP** | LANDMAP yw'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn ffurfiol ar gyfer asesu tirwedd yng Nghymru; felly dylai'r holl waith tirwedd ac asesiadau o'r effeithiau sy'n deillio o effaith y cynigion ar y dirwedd yng Nghymru gynnwys LANDMAP |

| | |
|---|---|
| **Dogfennau Cynllun Datblygu Lleol (neu Adneuo)** | Mae'r rhain yn cynnwys y CDLl adneuo, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, adroddiad ymgynghori cychwynnol, cofrestr safleoedd ymgeisiol, yr Adroddiad Adolygu (os yw'n briodol), unrhyw ddogfennau ategol perthnasol. |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.<br><br>Cynllun defnydd tir sy'n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn llunio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ar gyfer yr ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a lle bo angen, polisïau a chynigion ar gyfer meysydd allweddol o newid ac gwarchodaeth. Rhaid i bolisïau a dyraniadau gael eu dangos yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun. |
| **Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA)** | Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Lleol; h.y. Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref, neu Awdurdod Parc Cenedlaethol. |
| **Cynllun Llesiant Lleol** | O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i baratoi Cynllun Llesiant. |
| **Cynllun Morol** | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a baratowyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 |
| | |
| **Newid Materion sy'n Codi (MAC)** | Newid ar ôl cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio, pan fo'r Arolygydd penodedig yn dod i'r casgliad bod angen y newid er mwyn cadernid ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r archwiliad. |
| **Camau Lliniaru** | Mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau niweidiol sylweddol. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol (NPPP)** | Mewn ardaloedd parciau cenedlaethol, Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol (a elwid gynt yn Gynllun Rheoli) yw'r ddogfen bolisi drosfwaol strategol, sy'n cydlynu ac integreiddio cynlluniau, strategaethau a chamau gweithredu eraill lle bo'r rhain yn effeithio ar ddibenion a dyletswyddau'r Parc; dylai hysbysu'r CDLl. |
| **Amcan** | Datganiad o'r hyn a fwriedir, sy'n nodi'r cyfeiriad a ddymunir ar gyfer newid o ran tueddiadau. |
| **Dangosydd Allbwn** | Dangosydd sy'n mesur allbwn uniongyrchol y cynllun. Mae'r dangosyddion hyn yn mesur cynnydd o ran cyflawni amcanion, targedau a pholisïau'r cynllun. |
| **Cyfranogiad** | Proses lle gall rhanddeiliaid a'r gymuned ryngweithio â llunwyr cynlluniau. |
| **Partneriaid** | Adrannau awdurdodau lleol/NP a chyrff statudol eraill lle bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu i gyflawni rhai o amcanion eu strategaethau. Mae'n bosibl y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu at ffurfio rhannau perthnasol o'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)** | Corff annibynnol a fydd yn gyfrifol am archwilio CDLl2 yn ffurfiol. |
| **Dogfennau cynigion cyn-adneuo** | Diffinnir dogfennau cynigion cyn-adneuo yn y Rheoliadau CDLl fel y rhestr o ddogfennau a fydd ar gael yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ac sy'n cynnwys y weledigaeth, yr opsiynau strategol, y strategaeth a ffefrir, y polisïau allweddol, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, y gofrestr o safleoedd ymgeisiol, Adroddiad yr Adolygiad. |
| **Cam Cyn-adneuo** | Y camau cyfranogi ac ymgynghori cyn y cam adneuo. |
| **Strategaeth a Ffefrir** | Mae hwn yn gosod y cyfeiriad strategol eang ar gyfer CDLl 3. Mae hyn yn cynnwys y lefel o dwf a ffefrir ynghyd â'r strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu'r twf. Mae hefyd yn cynnwys gweledigaeth, materion ac amcanion y Cynllun. |
| **Datganiadau i'r wasg** | Datganiadau'r Awdurdod i'r cyfryngau lleol neu gyfryngau Cymreig gan gynnwys papurau newydd a gorsafoedd newyddion teledu a radio fel y bo'n briodol. Gall y |

| | |
|---|---|
| | cyfryngau ddewis peidio ag argraffu na darlledu'r eitem newyddion. |
| **Adroddiad yr Adolygiad** | Yr adroddiad statudol gofynnol o dan A69 Deddf 2004 a/neu Reoliad 41; i ddod i gasgliad ar y weithdrefn adolygu CDLl sydd i'w dilyn ar sail asesiad clir o'r hyn sydd wedi cael ei ystyried a'r hyn sydd angen ei newid a pham, ar sail tystiolaeth. |
| **Cwmpasu SA** | Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder SA, gan gynnwys yr opsiynau a'r effeithiau ar gynaliadwyedd y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio, a strwythur a chynnwys yr Adroddiad SA. |
| **Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA)** | Cytundeb gydag asiantaeth statudol sy'n pennu'r safonau y bydd yn anelu at eu cyrraedd, a'r costau sy'n codi. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cytuno ar un gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol yng nghyswllt archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol, gan nodi'r amserlen debygol a chost yr archwiliad a rhoi arweiniad clir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch natur ei gyfrifoldebau ei hun. |
| **Gweithdrefn adolygu ffurf fer** | Gall fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau ymgymryd â'r weithdrefn adolygu cynllun llawn. |
| **Effaith arwyddocaol** | Effeithiau sy'n arwyddocaol yng nghyd-destun y cynllun (Mae Atodlen 1 Reoliadau SEA yn rhoi meini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd tebygol yr effeithiau ar yr amgylchedd). |
| **Dangosydd Effeithiau Arwyddocaol** | Dangosydd sy'n mesur effeithiau arwyddocaol y cynllun. |
| **Dyraniadau safle-benodol** | Safleoedd (cynigion) sydd wedi'u dyrannu ar gyfer defnyddiau neu ddatblygiad penodol neu gymysg sydd wedi'u cynnwys mewn cynllun datblygu lleol. Bydd polisïau'n nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol. Dangosir y dyraniadau ar fap cynigion y CDLl. |
| **Cadernid** | Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i'r Arolygydd archwilio (A64 o Ddeddf 2004) bennu bod CDLl yn 'gadarn'. Mae profion a gwiriadau cadernid yn cael eu nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (p2) ac yn y Llawlyfr (p6). |

| | |
|---|---|
| **Rhanddeiliaid** | Buddiannau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol (a/neu'r SEA) yn effeithio'n uniongyrchol arnynt – cyfranogiad yn gyffredinol drwy gyrff cynrychioladol. |
| **Datganiad Tir Cyffredin (SocG)** | Pwrpas Datganiad Tir Cyffredin yw sefydlu'r prif feysydd cytundeb rhwng dau neu ragor o bartïon ar fater penodol. |
| **Cynllun Datblygu Strategol (SDP)** | Cynllun datblygu rhanbarthol yw Cynllun Datblygu Strategol i ymdrin â materion trawsffiniol. Bydd yn cael ei baratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig ar draws rhanbarth. Rhaid i'r Cynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio'n gyffredinol â'r SDP ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. |
| **Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)** | Term cyffredinol a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir i gynlluniau a rhaglenni. Mae proses SEA yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac yn cael ei diffinio ar lefel Ewropeaidd – Cyfarwyddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau SEA) yn ei gwneud yn ofynnol i gael "asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rheini ym maes cynllunio a defnydd tir". |
| **Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)** | Gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau mewn CDLl. Nid yw CCA yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol ond rhaid iddynt fod yn gyson ag ef ac â pholisi cynllunio cenedlaethol. |
| **Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA)** | Dull o werthuso polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol o dan A62(6) Deddf 2004 gynnal SA o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r ffurf hon o Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion y Rheoliadau SEA yn llawn.<br><br>Defnyddir y term yn y Cytundeb Cyflawni hwn i gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni nodir yn wahanol. |

| | |
|---|---|
| **Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd** | Mae hyn yn cynnwys yr amcanion a nodir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y mae opsiynau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hasesu yn eu herbyn wedyn. |
| **Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (Adroddiad SA)** | Dogfen y mae'n ofynnol ei chynhyrchu fel rhan o broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddisgrifio ac i arfarnu effeithiau arwyddocaol tebygol gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol, sydd hefyd yn bodloni'r gofyniad ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol o dan y Rheoliadau SEA. Mae A62(6) Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi adroddiad ar ganfyddiadau SA y CDLl.<br>- Caiff Adroddiad SA ei gynhyrchu'n gyntaf yn y cam Strategaeth a Ffefrir (Adroddiad SA Interim), ei ehangu yn y cam CDLl Adneuo a'i gwblhau ochr yn ochr â'r Datganiad Mabwysiadu. |
| **Deddf 2004** | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. |
| **Gweithdy** | Pan fydd grŵp yn cael cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp ac ymarferion ymarferol gydag 'allbwn' ysgrifenedig neu wedi'i lunio. |